# Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026: tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd


Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg: Rhagfyr 2024

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhagfyr 2024

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhagfyr 2024 - Atodiad A - Tablau BEL – Ailddatgan

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhagfyr 2024 - Atodiad B - Esboniad o symudiadau ar lefel BEL

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhagfyr 2024 - Atodiad C - Buddsoddiad gan Gronfa Sgrin Cymru a Bad Wolf Studios

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog: Rhagfyr 2024

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Cyllidebau'r Gymraeg

Sesiwn Dystiolaeth: Dydd Iau 16 Ionawr 2025 – 9:15-10:45

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau'r gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg mewn cynigion a amlinellwyd yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024. Mae hefyd yn darparu diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

# Cynnwys


1. **Sylwadau ar y Camau Gweithredu a manylion am ddyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ..... 3**
   - BEL y Gymraeg ..... 4
   - BEL Comisiynydd y Gymraeg ..... 5
   - Y BEL Cymraeg mewn Addysg ..... 5
   - BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol) ..... 5
2. **Gwybodaeth arall ..... 7**
3. **Meysydd Penodol ..... 12**
4. **Comisiynydd y Gymraeg ..... 20**
5. **Gwariant Cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg ..... 21**
6. **Crynodeb ..... 22**
7. **Atodiadau ..... 23**
   - Atodiad A – Manylion cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg fesul Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2023-24, 2024-25 a 2025-26 ..... 23

# 1. Sylwadau ar y Camau Gweithredu a manylion am ddyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2025-26 sy'n berthnasol i bolisïau'n ymwneud â'r Gymraeg.

*Tabl 1: Dyraniadau Cymraeg 2050 yng nghyllideb 2025-26*

| | 2025-26 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg – Crynodeb | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2024-25 (Medi 2024) | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Dyraniadau Ychwanegol | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft (Rhag 2024) |
| | £000s | | | | | |
| Prif Grŵp Gwariant (MEG) Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | |
| Adnoddau cyllidol (refeniw) | 37,157 | 76 | 37,233 | 4,596 | 50 | 41,879 |
| Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) | 121 | 0 | 121 | 26 | -9 | 138 |
| Cyfanswm Adnoddau – MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 37,278 | 76 | 37,354 | 4,622 | 41 | 42,017 |
| MEG Addysg | | | | | | |
| Adnoddau cyllidol (refeniw) | 16,211 | 7 | 16,218 | 19 | -1,100 [1] | 15,137 |
| Cyfanswm Adnoddau – MEG Addysg | 16,211 | 7 | 16,218 | 19 | -1,100 | 15,137 |
| Cyfanswm Adnoddau - Cymraeg 2050 | 53,489 | 83 | 53,572 | 4,641 | -1,059 | 57,154 |
| MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | |
| Cyfalaf | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm Cyfalaf – MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm – Cymraeg 2050 | 53,539 | 83 | 53,622 | 4,641 | -1,059 | 57,204 |

[1] Mae'n adlewyrchu trosglwyddiad gweinyddol i'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon o fewn y MEG Addysg i ddatblygu a chyflawni dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol yr holl ymarferwyr.

Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r cyllidebau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor y llynedd, er bod y llinellau yn y gyllideb wedi'u rhannu bellach ar draws dau brif grŵp gwariant: y MEG Addysg (llinellau gwariant Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)) a'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (llinellau gwariant y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg) yn dilyn y newidiadau i'r Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Medi. Er eu bod wedi'u hepgor o'r cyllidebau *Cymraeg 2050* a gyflwynir uchod, cydnabyddir bod llinellau gwariant eraill yn y MEG Addysg (gan gynnwys BEL Seilwaith Addysg a BEL Datblygu a Chymorth Athrawon) a llinellau gwariant ar draws portffolios Gweinidogion eraill hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu polisïau'n ymwneud â'r Gymraeg (gweler yr adran Gwybodaeth Arall).

Cyfanswm y gyllideb ddangosol ar gyfer *Cymraeg 2050* fel y nodir uchod yw £57.2m ar gyfer 2025-26, sy'n cynnwys adnoddau cyllidol (refeniw) o £57.016m, adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) o £0.138m a chyfalaf o £0.05m. Ar draws y naill MEG a'r llall, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £3.5m mewn adnoddau (6.7%), fodd bynnag bydd y cynnydd hwn yn cael ei effeithio gan y trosglwyddiad o £1.1m o fewn y MEG Addysg (ewch i droednodyn 1). O ystyried y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar ei ben ei hun, ceir cynnydd mewn adnoddau o oddeutu £4.7m (cynnydd o 12.5%) ar gyfer 2025-26 o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.

Yn unol â chais y Pwyllgor, mae dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2025-26, ynghyd ag alldro terfynol 2023-24 a rhagolygon alldro 2024-25 (fel yr oeddent yng Nghyfnod 6) fesul MEG, Cam Gweithredu a BEL wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae hyn yn cadarnhau mai'r alldro terfynol yn 2023-24 ar gyfer cyllidebau *Cymraeg 2050* o fewn y MEG Addysg a'r Gymraeg blaenorol oedd ychydig o dan £49m, ac mai'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw £54m.

Y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yw Cyllideb Derfynol 2024-25 (a ailddatganwyd ym mis Medi 2024) wedi'i haddasu ar gyfer addasiadau llinell sylfaen cylchol ar gyfer 2024-25 i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus yn 2024-25 a'r cynnydd yn y cyfraniadau pensiwn o fis Ebrill 2024 oherwydd y newid mewn cyfradd a elwir yn Gyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE). Mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2025-26 ar gyfer staff Comisiynydd y Gymraeg, Adnodd a *Cymraeg 2050*.

## BEL y Gymraeg

Diben BEL y Gymraeg (o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yw cefnogi cyflawni *Cymraeg 2050* mewn perthynas â Themâu 2 a 3 *Cymraeg 2050* – cynyddu'r defnydd o'r iaith a sicrhau'r amodau a'r seilwaith gorau i gyflawni'r strategaeth. Y gyllideb ddangosol ar gyfer BEL y Gymraeg yw £38.534m yn 2025-26. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mewn arian parod o £4.55m (13.4%) yn 2025-26 o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

Mae'r cyllid yn y llinell wariant hon yn cefnogi gweithgareddau i gyflawni *Cymraeg 2050*, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhanddeiliaid allweddol i:

- ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn dilyn trosglwyddo'r gyllideb hon o'r BEL Cymraeg mewn Addysg fel rhan o ailstrwythuro'r Cabinet;
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru;

- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, drwy grantiau i bartneriaid allweddol, gan gynnwys: y rhwydwaith o Fentrau Iaith a Phapurau Bro; Merched y Wawr; Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; a'r Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- Cymraeg i Blant drwy'r Mudiad Meithrin i gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo Cymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol;
- cyflawni'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg;
- gweithgareddau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith sy'n cefnogi a hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg plant oedran ysgol (gyda £0.5m bellach yn y BEL Grant Addysg Awdurdodau Lleol Cymraeg (2050));
- y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg; a
- chynnal gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

Mae arnom angen cefnogaeth ein partneriaid i gyflawni amcanion *Cymraeg 2050*. Mewn perthynas â'r cynnydd yn y BEL, mae £3.5m yn ymwneud â dychwelyd y cyllid a ailflaenoriaethwyd i gronfeydd wrth gefn fel rhan o gyllideb y llynedd. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau sefydlogrwydd ar draws yr holl sector Cymraeg i sicrhau y cynhelir y seilwaith, sy'n hanfodol i gefnogi Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Bydd £1m ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ymrwymiadau presennol yn erbyn y BEL, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer technoleg Gymraeg a Theatr Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd. Mae'r gyllideb hefyd yn adlewyrchu'r trosglwyddiad cylchol o £0.05m o'r MEG Addysg i ariannu'r cymorth digidol Cymraeg ar gyfer y sector AB drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae manylion pellach ynghylch y dyraniadau i randdeiliaid wedi'u hamlinellu yn adran 'Meysydd Penodol' y papur hwn.

## BEL Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r gyllideb hon (o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg, a darperir rhagor o fanylion yn yr adran 'Comisiynydd y Gymraeg'.

## Y BEL Cymraeg mewn Addysg

Mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg (o fewn y MEG Addysg) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Thema 1 sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg o fewn *Cymraeg 2050*. Y gyllideb ddangosol ar gyfer 2025-26 yw £6.537m, sy'n gynnydd bach (£0.019m) o'r llinell sylfaen ddiwygiedig yn benodol mewn perthynas ag Adnodd, i roi cymorth ychwanegol iddo ar gyfer y cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26. Mae'r BEL yn cefnogi:

- cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant Gymraeg fel llwybr i addysg Gymraeg;
- parhad yr arian ar gyfer y rhaglen e-sgol (£0.6m y flwyddyn);
- gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd; ac
- Adnodd, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2023, sy'n gyfrifol am gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm a'i gymwysterau.

## BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol)

Sefydlwyd BEL Cymraeg 2050 (grant addysg awdurdodau lleol) o 2024-25 fel rhan o'n dull newydd o ymdrin â grantiau addysg ôl-16 drwy lunio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, gan gyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i leihau'r baich gweinyddol ar

awdurdodau lleol. Mae'r elfen hon o'r grant yn cyfuno arian ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg, Dysgu Proffesiynol, y ddarpariaeth trochi hwyr a'r Siarter Iaith, a bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) arfaethedig.

Er bod y gyllideb yn gostwng £1.1m i £8.6m yn 2025-26, mae'r gostyngiad hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â throsglwyddiad gweinyddol i'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon o fewn y MEG Addysg. Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bwriad i ddwyn ynghyd swyddogaethau presennol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a rhai o swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a phartneriaethau awdurdodau lleol mewn corff cenedlaethol. Bydd y corff hwn yn gyfrifol am ddylunio a darparu cymorth dysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol ar lefel genedlaethol mewn ymateb i flaenoriaethau ymarferwyr a Llywodraeth Cymru sy'n newid. O ganlyniad, bydd y £1.1m yn parhau i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr Cymraeg ac yn datblygu sgiliau iaith yr holl ymarferwyr, ond yn hytrach bydd yn cael ei ddyrannu i ddatblygu a darparu dysgu proffesiynol cenedlaethol.

# 2. Gwybodaeth arall

*Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae gwariant a chyflawni portffolio'r Gymraeg yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.*

O ran gwerth am arian, mae eglurder ynghylch sut y defnyddiwn ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* a'r Rhaglen Lywodraethu. Unwaith y bydd y gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'm blaenoriaethau, mae gennyf brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion y'u bwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein perthynas â phartneriaid cyflawni.

Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn *Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026* yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynlluniau Gweithredu blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna ceir Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn i adrodd ar y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau i sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hail-flaenoriaethu i gyflawni'r strategaeth.

Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl o ran cynghori ar y cynnydd a wneir tuag at dargedau 2050 ac effeithiolrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi'r camau i'w lliniaru ac mae'n prif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

*Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliadau) yn eich portffolio, yn ogystal â dyraniadau ym mhortffolios gweinidogol eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni polisi iaith Gymraeg ac sy'n cefnogi targedau Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi gweinidogol.*

Ers lansio *Cymraeg 2050*, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gyfres o gerrig milltir i gyflawni ein targedau o filiwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Rydym yn dilyn llwybr a ddatblygwyd ar sail Cyfrifiad 2011. O'r dechrau, gwnaethom ymrwymo i oedi unwaith i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ddod i law er mwyn ystyried y sefyllfa ac adolygu ein cynlluniau gwaith a'r llwybr i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ôl yr angen. Rydym bellach yn ystyried data'r Cyfrifiad ochr yn ochr â ffynonellau eraill o wybodaeth, er enghraifft yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, i sicrhau ein bod yn parhau ar y llwybr cywir gyda'n nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Yn dilyn y sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft 2024-25 gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 11 Ionawr 2024, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach am y cyllidebau ar draws adrannau'r llywodraeth sy'n cyfrannu at *Cymraeg 2050*. Amlinellodd yr ymateb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 5 Mawrth 2024 y ffaith bod *Cymraeg 2050* wedi'i brif ffrydio ym mhob maes portffolio Llywodraeth Cymru a bod gwariant ar yr iaith eisoes yn rhan annatod o'r gwaith cyflawni o fewn sawl portffolio gweinidogol arall, gan gynnwys iechyd, tai a'r blynyddoedd cynnar. Felly, cydnabyddir nad yw'n bosibl nodi cyfanswm y gwariant ar y Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru o gofio natur gynhenid cyllido. Er enghraifft, mae'r sector diwylliant a'r celfyddydau yn cyfrannu at gyflawni *Cymraeg 2050* ac mae gwybodaeth am y dyraniadau ar gyfer y sector hwn wedi'i nodi ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i'r Pwyllgor hwn. Mae

swyddogion *Cymraeg 2050* yn cadw cysylltiad agos â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i fonitro effaith penderfyniadau gwariant ar *Cymraeg 2050*.

*Gwybodaeth am sut, os o gwbl, mae'r adolygiad o Gynllun Grant Llywodraeth Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wedi effeithio ar ddyraniadau ar gyfer 2025-26.*

Rhoddodd yr adolygiad o'r cynllun grantiau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ddarlun a gwerthusiad o'r prosesau grantiau sydd ar waith eisoes gan yr Is-adran Cymraeg 2050. Mae'r ystyriaeth o ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn parhau. Amlygodd yr adolygiad yr angen am gyfnod ariannu hwy. Ar hyn o bryd, dyrennir y grant ar sail flynyddol, a bydd gwaith yn cael ei wneud yn 2025-26 i archwilio'r posibilrwydd o estyn y dyraniadau grant am hyd at dair blynedd.

Yn ogystal, mae ein trafodaethau rheolaidd â phartneriaid grantiau wedi dod i'r casgliad bod yr heriau ariannol a wynebant oherwydd nad ydynt yn derbyn codiadau ar sail chwyddiant yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gadw staff a gweithredu eu rhaglenni gwaith yn llawn.

O ganlyniad i'r cynnydd yng nghyllideb y Gymraeg, cynigiwn fod y partneriaid sy'n derbyn grantiau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn derbyn cynnydd o 5% o leiaf yn 2025-26. Yn ogystal, bydd rhai sefydliadau'n derbyn cymorth ychwanegol i helpu i gynyddu eu heffaith ar amcanion *Cymraeg 2050*. Er enghraifft, cynigiwn y bydd isafswm y dyraniad grant i'r mentrau iaith yn cynyddu o £60k i £100k.

*Sylwebaeth ar ymrwymiadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, ac amlinelliad o'r goblygiadau ariannu presennol neu dros dro ar gyfer yr ymrwymiadau penodol hyn:*

Mae nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â chyflawni *Cymraeg 2050* wedi'u nodi drwy gydol y papur hwn, er enghraifft:

- Creu'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
- Ehangu'r Rhaglen Trochi Disgyblion.

Isod, rydym yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am rai o'r ymrwymiadau penodol y gwnaeth y Pwyllgor gais amdanynt.

- Cynyddu prentisiaethau mewn gofal a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.

Prif ffynhonnell y cyllid yw'r dyraniadau prif ffrwd ar gyfer darparwyr prentisiaethau. Mae darparwyr prentisiaethau wedi'u halinio â'r rhwydwaith cyflenwi ôl-16 ehangach ac maent wedi cael eu heffeithio gan gostau cynyddol mewn blynyddoedd diweddar. Mewn ymateb i'r pwysau hwn, cynyddodd gwerthoedd y fframwaith 5% yn 2022/23 a 2023/24 a 3.5% yn 2024/25.

Ar gyfer 2024-25, rydym yn buddsoddi £144m yn y rhaglen brentisiaethau. Dylai'r gyllideb ein galluogi i gynnal nifer y prentisiaethau wedi'u targedu i'w dechrau gan bobl ifanc yn ystod tymor y Senedd hon. Ar gyfer cyllideb ddrafft 2025-26, rydym wedyn cadw ein buddsoddiad yn ein rhaglen brentisiaeth ar £144m.

Mae'r rhaglen brentisiaethau yn cefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r model ariannu'n cymhwyso cynnydd ar gyfer darparu prentisiaethau'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae gan ddarparwyr prentisiaethau dargedau i gynyddu'r ddarpariaeth mewn sectorau â blaenoriaeth, gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Adeiladu ac Amaeth.

Ehangwyd rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. O ganlyniad i'n buddsoddiad ychwanegol yn 2022-23 a 2023-24, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi darparu cyllid ar gyfer 21 aseswr mewn sectorau prentisiaethau â blaenoriaeth gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Busnes, y Celfyddydau Creadigol a Lletygarwch.

Dylai'r swyddi ychwanegol a ariennir gan y Coleg arwain at dwf parhaus yn nifer y dysgwyr ar brentisiaethau sy'n defnyddio darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog fel rhan o'u prentisiaeth. Byddwn yn monitro nifer y rheini sy'n dechrau prentisiaethau'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol hon; er hynny, nid ydym yn disgwyl cael darlun llawn nes diwedd y flwyddyn.

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant i Ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae gwybodaeth bellach am y rhaglen Cymraeg Gwaith wedi'i nodi o dan yr adran 'Meysydd Penodol' isod.

- Deddfwriaeth i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg.

Nid oes cyllid penodol wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), a bydd y costau'n cael eu talu o'r llinellau gwariant presennol o fewn y MEG Addysg a'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Mae gweithredu'r Bil yn amcan polisi hirdymor i gyfrannu at y targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn ymddangos ar bwyntiau gwahanol rhwng y Cydsyniad Brenhinol (a ddisgwylir yn ystod Haf 2025) a 2050, a bydd gofyn i mi, ynghyd â Gweinidogion eraill, wneud penderfyniadau ariannol yn ystod yr amserlen hon.

Gosodwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi manylion y costau a'r manteision sy'n codi o ddarpariaethau'r Bil gerbron y Senedd pan gyflwynwyd y Bil ar 15 Gorffennaf 2024. Mae'n nodi mai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yw £103m dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd o 2025-26, sy'n cynnwys costau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, Estyn, a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn cael ei sefydlu gan y Bil. Yn unol â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi asesu y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod arfarnu.

- Gweithredu safonau'r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus newydd eu sefydlu, a chwmnïau dŵr, a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai.

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd ac ar gyfer gweithredwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n darparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r ddeddfwriaeth i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) wedi cynnwys y cyrff hyn o fewn y Rheoliadau presennol hefyd.

Ymgynghorwyd ar reoliadau drafft i ychwanegu mwy o gyrff at y rheoliadau safonau presennol yn gynharach eleni, a bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron y Senedd ddechrau 2025. Rydym yn parhau i weithio drwy'r rhaglen safonau a amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu ac rydym yn gwneud gwaith polisi ar hyn o bryd i baratoi safonau

ar gyfer cymdeithasau tai. Yn dilyn hynny, byddwn yn symud ymlaen i baratoi rheoliadau ar gyfer darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd angen i gostau gweithredu'r rheoliadau hyn gan Gomisiynydd y Gymraeg gael eu talu o gyllideb adnoddau'r Comisiynydd. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn ategu'r Offeryn Statudol, yn amlinellu unrhyw oblygiadau ariannol a fydd gan y rheoliadau i'r cyrff sy'n ddarostyngedig iddynt.

- Cefnogi cynnydd mewn mannau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys gweithleoedd.

*Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio i gyrsiau dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith, mae Cymraeg Gwaith yn galluogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr.

Cryfder y rhaglen Cymraeg Gwaith yw ei gallu i ymateb i anghenion ystod amrywiol o gyflogwyr a gweithleoedd. Ehangwyd y cynllun mewn blynyddoedd diweddar i gynnwys Academi Cymraeg Gwaith newydd, sy'n adnodd pwrpasol i gefnogi cyflogwyr. O ganlyniad, mae niferoedd cynyddol wedi'u cyrraedd, gan arwain at ymgysylltiad a defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru. Yn 2023-24, cefnogwyd 578 o gyflogwyr o dan y cynllun Cymraeg Gwaith.

Yn 2023-24 hefyd, lansiwyd rhaglen bwrpasol i weithwyr yn y Sector Iechyd a Gofal. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol i sefydlu cynlluniau i wella sgiliau Cymraeg gweithlu GIG Cymru, gan gynnwys y cynllun Codi Hyder sy'n ceisio meithrin hyder ymysg staff y GIG. Yn ystod 2023-24, cefnogwyd 1,514 o gyflogeion i ddatblygu eu sgiliau o dan raglen y Sector Iechyd a Gofal.

Yn ogystal â'r gefnogaeth a amlinellwyd ar gyfer ymarferwyr addysg (ewch i'r adran 'Meysydd Penodol' isod), mae ein cyllid ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cefnogi amrywiaeth o ymyriadau ar gyfer y gweithlu ôl-16, gan gynnwys y cynllun Cymraeg Gwaith a ddarperir ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn ystod 2023-24, cefnogwyd 901 o ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau, gyda saith prifysgol ac 11 o golegau addysg bellach yn ymrwymo i'r cynllun. Dilynodd 212 ymarferydd arall gyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor.

Bydd y cynnydd yn BEL y Gymraeg yn 2025-26 yn cefnogi cynnydd yn y cyllid a ddarparwn i'r Ganolfan Genedlaethol. Cynigir y bydd £2.625m yn cael ei ddyrannu o fewn BEL y Gymraeg yn 2025-26 i gefnogi'r cynllun Cymraeg Gwaith, sef cynnydd o 5% (£0.125m) ar y cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2024-25. Bydd £1.758m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Ganolfan Genedlaethol i gefnogi'r cynllun Ymlaen Gyda'r Dysgu, sy'n darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed a'r gweithlu addysg. Mae hyn yn ychwanegol at yr £1.1m a ddyrennir o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2025-26 (ewch i'r adran 'Meysydd Penodol' isod).

*Cwmpas*

Yn ystod 2024-25, rydym wedi dyrannu cyllid o hyd at £0.35m i Cwmpas i barhau ei waith o gefnogi pobl i sefydlu mannau Cymraeg newydd, h.y. mentrau cydweithredol sy'n annog y defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Ceir rhagor o wybodaeth am Perthyn yn adran 3 o dan y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*. O'r £0.35m a ddyrennir i Cwmpas,

mae £0.15m yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth arbenigol i grwpiau cymunedol, tra bod y £0.2m sy'n weddill yn darparu cynllun grantiau bach i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol newydd. Ar gyfer 2025-26, yn unol â'r cynnydd arfaethedig o 5% fan leiaf ar gyfer ein partneriaid grantiau, cynigir bod y cyllid ar gyfer elfen cyngor a chymorth Cwmpas yn cynyddu o £150,000 i £157,500.

Rydym wedi parhau i gyllido (£67,000) Prifysgol Bangor i ddatblygu'r rhaglen ARFer – rhaglen addewid ymddygiad, sy'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu hiaith yn amlach yn y gweithle. Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi derbyn cyllid i ddatblygu ap i hwyluso mabwysiadu'r rhaglen yn ehangach gan gyfrannu at greu mwy o weithleoedd dwyieithog a Chymraeg.

Mae ein rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog', sy'n hybu integreiddio gwerthoedd ac arferion *Cymraeg 2050* o fewn diwylliant sefydliadau, wedi gorffen ei gyfnod peilot a byddwn yn lansio iteriad 5 mlynedd o'r rhaglen yn 2025-26. Mae'n rhaglen ar y cyd rhwng Academi Wales a'r Is-adran Cymraeg 2050 sydd â swm amcangyfrifiedig o £380,000 dros 5 mlynedd, yn amodol ar weithdrefn gaffael arfaethedig.

Llywodraeth Cymru

O ran Llywodraeth Cymru ei hun fel gweithle, mae ein strategaeth Gymraeg fewnol, *Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd,* yn ein hymrwymo i ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050. Ers i ni gyhoeddi ein strategaeth yn 2020, rydym wedi:

- trawsnewid sut rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff, drwy gynnig rhaglen fwy eang a hyblyg, gyda dulliau sy'n gweddu i arddulliau dysgu gwahanol.
- o ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd o 758% yn nifer y staff sy'n dilyn dysgu ffurfiol yn y gwaith (o 73 yn 2020 i 627 o ddysgwyr 2024),
- canolbwyntio ar arweinyddiaeth yn yr Uwch Wasanaeth Sifil a chael uwch arweinwyr i fodelu ymddygiad enghreifftiol yn eu defnydd o'r Gymraeg â staff; a
- diwygio yn union sut rydym yn recriwtio o ran gofynion am y Gymraeg, gan bwysleisio bod sgiliau Cymraeg yn ased ar gyfer gweithio yn Llywodraeth Cymru, waeth beth yw'r rôl.

# 3. Meysydd Penodol

## Diweddariadau ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2024-25

*Dadansoddiad o effaith gostyngiadau yn y gyllideb ar draws adrannau gweinidogol ar gyflawni polisïau a mentrau sydd â'r nod o gyrraedd targedau Cymraeg 2050.*

Darparodd cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref fuddsoddiad i Gymru a groesawyd yn fawr, gyda'n setliad £1.7bn yn fwy dros 2024-25 a 2025-26. Mae'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru drwy Gyllideb y DU wedi golygu bod yr holl bortffolios Gweinidogol wedi derbyn cynnydd mewn cyllid ar gyfer 2025-26 i gefnogi blaenoriaethau ein Llywodraeth. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ostyngiadau mewn cyllidebau ar gyfer 2025-26 ar draws portffolios Gweinidogol eraill a fydd yn effeithio ar gyflawni targedau *Cymraeg 2050*.

*Dyraniadau grant o BEL y Gymraeg ar gyfer rhanddeiliaid allweddol sy'n hybu ac yn cefnogi'r Gymraeg, gan gynnwys Mentrau Iaith Cymru, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer 2024-25 a dyraniadau i'r rhanddeiliaid hyn dros y 5 mlynedd ariannol ddiwethaf.*

Bydd y cynnydd mewn cyllid i BEL y Gymraeg yn cefnogi ein holl bartneriaid grant, gyda chynnydd arfaethedig mewn cyllid o 5% fan leiaf ar gyfer 2025-26. Bydd hyn yn darparu cymorth i'r sefydliadau hyn reoli pwysau costau yn sgil chwyddiant a gwneud cynlluniau ar gyfer dyfarniad cyflog yn 2025-26.

*Mentrau Iaith*

Y dyraniad grant craidd blynyddol ar gyfer y rhwydwaith o fentrau iaith yw £2.368m ac mae wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd ddiwethaf. Dosberthir y dyraniad grant rhwng 22 o fentrau iaith lleol ac mae'n darparu cyllid yn ogystal ar gyfer Mentrau Iaith Cymru, sef y sefydliad ambarél ar gyfer y mentrau iaith. Yn 2022-23, darparwyd taliad untro ychwanegol o 4% i'r mentrau iaith i helpu gyda phwysau yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn cyflogau. Mae'r mentrau iaith yn darparu ystod eang o weithgareddau i gefnogi'r iaith yn y gymuned. Datblygir y gweithgareddau hyn fel arfer ar ôl cynnal ymarfer proffil iaith i bennu anghenion ieithyddol eu hardaloedd lleol. Mae'r dyraniadau cyllid ar gyfer mentrau iaith unigol yn amrywio o £0.060m i £0.160m, a disgwylir i'r isafswm grant gynyddu i £0.1m o 2025-26. Mae disgwyl i gyfanswm y cyllid yn 2025-26 ar gyfer y mentrau iaith gynyddu £0.428m.

*Eisteddfod Genedlaethol Cymru*

Ers 2020, mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi derbyn cyllid refeniw o dros £1m y flwyddyn. Cyn y cyfnod hwn o bum mlynedd, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn derbyn tua £0.6m y flwyddyn. Mae'r cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad nid yn unig wedi sicrhau bod yr Eisteddfod wedi gallu adfer yn llawn yn dilyn y pandemig, ond mae hefyd wedi ei galluogi i ehangu ei rhaglen artistig a chyrhaeddiad ei gweithgareddau ymgysylltu cymunedol sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith o gryfhau strwythurau'r sefydliad wedi caniatáu iddo lunio partneriaethau newydd a dyfnhau ei waith ym mhob ardal Eisteddfod. Mae'r Eisteddfod hefyd yn gweithredu fel cynhyrchydd a chatalydd ar gyfer gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol Cymraeg ehangach, gan ddod â chymunedau Cymreig yn agosach at yr iaith a chefnogi cyflawni *Cymraeg 2050*

ar yr un pryd. Gwnaethom hefyd ddarparu £0.640m mewn cyllid cyfalaf i'r Eisteddfod yn 2021-22 i gryfhau seilwaith yr ŵyl. Mewn blynyddoedd diweddar, rydym hefyd wedi cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol i ehangu cyrhaeddiad a hygyrchedd yr ŵyl drwy gynnig tocynnau wedi'u hariannu am ddim i deuluoedd incwm isel. Mae'r swm wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar y gyllideb sydd ar gael ac anghenion y gymuned leol. Yn ogystal â chynnydd arfaethedig o 5% ar gyfer 2025-26, cynigir £0.2m arall y flwyddyn ariannol nesaf i gefnogi mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel i ehangu mynediad cynulleidfaoedd newydd i'r iaith.

*Urdd Gobaith Cymru*

Mae'r Urdd yn cael ei gydnabod fel partner hanfodol yn y gwaith o gyflawni *Cymraeg 2050*. Ers 2020-21, mae grant craidd yr Urdd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu o £0.990m i £2.4m y flwyddyn. Yn ogystal, yn 2022-23, gwnaethom ymrwymo i ddarparu £0.2m yn ychwanegol y flwyddyn am 5 mlynedd er mwyn i'r Urdd ailsefydlu ei Theatr Ieuenctid Genedlaethol, Y Cwmni, hyd at ddiwedd 2026-27. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyllido'r Urdd i gefnogi strategaeth ryngwladol y llywodraeth. Defnyddir buddsoddiad Llywodraeth Cymru gan yr Urdd i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd unigryw a dynamig i blant a phobl ifanc ledled Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg ac i brofi'r iaith fel elfen ddiwylliannol, fywiog o fywyd Cymreig. Mae gwersylloedd yr Urdd hefyd wedi derbyn cyllid cyfalaf sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd diweddar; o'r gwaith o ailddatblygu Pentre Ifan yn Sir Benfro i agor adain breswyl, ffreutur ac ardal weithgareddau newydd yn Llangrannog. I nifer o blant, eu hymweliad â gwersylloedd yr Urdd fydd eu tro cyntaf yn aros i ffwrdd o gartref yn annibynnol, gyda diwylliant Cymraeg a'r iaith wrth galon eu hymweliadau. Yn debyg i'r Eisteddfod Genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi Eisteddfod yr Urdd i ehangu ei chyrhaeddiad a'i hygyrchedd drwy ddarparu grant i alluogi'r Urdd i gynnig tocynnau am ddim i deuluoedd cymwys fwynhau'r hyn sydd gan Eisteddfod yr Urdd i'w gynnig. Yn ogystal â chynnydd arfaethedig o 5% ar gyfer 2025-26, cynigir £0.2m arall yn y flwyddyn ariannol nesaf i gefnogi mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel i ehangu mynediad cynulleidfaoedd newydd i'r iaith.

*Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

Nodir dyraniadau grant craidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y 5 mlynedd ariannol diwethaf isod.

*Tabl 2: Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Dyraniadau Grant Craidd o 2020-21*

| BEL | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | | | | | £9,888,000 | £9,888,000 |
| Cymraeg mewn Addysg | £6,370,333 | £7,303,000 | £8,513,000 | £9,838,000 | | £32,024,333 |
| Cyfanswm | £6,370,333 | £7,303,000 | £8,513,000 | £9,838,000 | £9,888,000 | £41,912,333 |

Mae cyllid craidd y Coleg yn cefnogi ei raglen addysg uwch a'i gynllun ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg. Mewn addysg uwch, mae ei gyllid yn cefnogi darpariaeth Gymraeg yn uniongyrchol ar draws prifysgolion a meysydd pwnc, gyda chymorth hanfodol yn cael ei ddarparu drwy ganghennau'r Coleg ar gyfer darlithwyr, datblygiad staff a chyhoeddiadau.

Yn y sector ôl-16, mae'r cyllid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg y Coleg, sy'n darparu grantiau datblygu

mewn meysydd â blaenoriaeth gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Amaeth, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

O fewn ei gyllid craidd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant a mentora drwy Sgiliaith, i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i feithrin hyder mewn addysgu'n ddwyieithog a chefnogi'r sector prentisiaethau. Darperir cyllid grant ychwanegol o feysydd eraill ar gyfer datblygu adnoddau digidol ac adnoddau eraill, y prosiect llysgenhadon a chefnogi datblygiad Cymraeg fel pwnc ac athrawon cyfrwng Cymraeg.

Yn 2024-25, cafodd y cyllid ychwanegol a ddarperir o dan y Cytundeb Cydweithredu ei gynnal ar lefelau 2023-24, gyda £2.825m yn cael ei ddarparu i'r Coleg ac £1.675m i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cynnal y gyllideb ar lefelau 2023-24 wedi caniatâu inni ailflaenoriaethu cyllid i ddiogelu gwasanaethau craidd i gefnogi ein dyheadau ar gyfer *Cymraeg 2050*. Yn benodol, roeddem wedi gallu cynnal y cyllid sy'n gysylltiedig â Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), Mudiad Meithrin a'r gyllideb Cymraeg mewn Addysg i gefnogi darpariaeth Gymraeg.

O ganlyniad i'n buddsoddiad ychwanegol yn 2022-23 a 2023-24, mae'r Coleg wedi darparu cyllid ar gyfer ymarferwyr ychwanegol yn y sector AB yn ogystal ag aseswyr mewn sectorau prentisiaethau â blaenoriaeth gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Busnes, y Celfyddydau Creadigol a Lletygarwch.

Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys dyraniad arfaethedig o £10.382m ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynnydd o £0.494m ar gyfer darpariaeth reng flaen. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i'r Coleg ailddechrau'r gwaith o estyn y ddarpariaeth drwy ehangu ei raglen o grantiau datblygu ar gyfer colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

*Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*

Nodir dyraniadau grant craidd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer y 5 mlynedd ariannol diwethaf isod.

*Tabl 3: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – Dyraniadau Grant Craidd o 2020-21*

| BEL | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | £6,216,525 | £10,337,100 | £13,465,000 | £14,885,000 | £14,885,000 | £59,788,625 |
| Cymraeg mewn Addysg | £5,686,475 | £2,913,000 | | | | £8,599,475 |
| Cyfanswm | £11,903,000 | £13,250,100 | £13,465,000 | £14,885,000 | £14,885,000 | £68,388,100 |

Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys dyraniad arfaethedig o £15.629m ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol. Mae hyn yn gynnydd o £0.744m (5%) ar ei dyraniad ar gyfer 2024-25 ac mae'r manylion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymraeg Gwaith | £2,625,000 |
| Ymlaen Gyda'r Dysgu (cyllid ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed a'r gweithlu addysg) | £1,758,750 |

| | |
|---|---:|
| Grant Gweithredol (costau rhedeg y Ganolfan) | £1,995,000 |
| Grant Cylchol (grantiau ar gyfer darparwyr Dysgu Cymraeg) | £9,250,500 |
| Cyfanswm | £15,629,250 |

Mae Grant Cylchol y Ganolfan Genedlaethol yn cefnogi ei darpariaeth Dysgu Cymraeg brif ffrwd drwy ei rhwydwaith o 11 o ddarparwyr cyrsiau ledled Cymru. Mae nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Genedlaethol yn parhau i gynyddu ac mae cyllid ychwanegol o £0.450m wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025-26 i gefnogi'r ddarpariaeth hon.

Bydd £2.625m yn cael ei ddyrannu o fewn BEL y Gymraeg yn 2025-26 i gefnogi'r cynllun Cymraeg Gwaith. Mae hyn yn gynnydd o £0.125m neu 5% ar y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25.

Mae'r £1.759m ar gyfer Ymlaen Gyda'r Dysgu yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd o dan y Cytundeb Cydweithredu yn 2024-25 a bydd yn cael ei ddefnyddio i ymestyn ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed a'r gweithlu addysg er mwyn darparu mynediad am ddim i gyrsiau Cymraeg. Fel rhan o'r cynnig, bydd dysgwyr cymwys 18 oed neu hŷn yn gallu cael mynediad at gyrsiau Dysgu Cymraeg prif ffrwd yn y gymuned. Mae'r data dros dro'n dangos bod 1,633 o ddysgwyr ifanc wedi defnyddio'r ddarpariaeth yn ystod 2023-24.

Dechreuodd y Ganolfan Genedlaethol gynnig cyrsiau am ddim i athrawon a gweithwyr eraill yn y sector addysg ym mis Medi 2022 ac mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi'r Ganolfan i ymestyn y ddarpariaeth hon ar gyfer 2023-24. Mae data dros dro gan y Ganolfan Genedlaethol yn dangos bod 1,613 o unigolion wedi defnyddio'r ddarpariaeth yn ystod 2023-24. Bydd £1.1m ychwanegol yn cael ei ddyrannu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2025-26 i ddarparu gwersi dysgu Cymraeg i ymarferwyr addysg. Ceir gwybodaeth bellach am y dyraniad hwn isod.

*Manylion am ddyraniadau cyllid yn 2024-25 i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a chapasiti'r gweithlu addysg, a sut yr effeithiodd cyllideb 2024-25 ar y gwaith i sicrhau cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*

O fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae cyllid ar gael o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi gweithredu ein cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg dros 10 mlynedd. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2025-26 yw £8.72m.

Bydd tua £3.8m yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi amcanion y cynllun a bydd yn cael ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd y cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y gweithgareddau a ganlyn:

- parhad y rhaglen bontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
- parhad y grantiau i ysgolion i ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â'r prinder athrawon;
- cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch mewn ysgolion a Cholegau AB;
- trydedd flwyddyn y bwrsari cadw athrawon; a
- chyllid ar gyfer CYDAG i gefnogi cydweithio ar draws ysgolion Cymraeg mewn nifer o feysydd polisi.

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant (BEL y Gymraeg) yn 2025-26 i ddatblygu dau brosiect penodol i barhau i:

- ddarparu'r prosiect Addysgu'r Dyfodol i ddarparu mentora i ddysgwyr israddedig i'w cefnogi i baratoi ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- datblygu'r rhwydwaith Cadw Cyswllt i ymgysylltu â graddedigion Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.

Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol o'n dull o gryfhau capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi i ymgysylltu â dysgu proffesiynol er mwyn gwella addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac i gefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm.

Bydd tua £3.8m yn cael ei ddyrannu o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2025-26 i'r Cynllun Sabothol i ddarparu dysgu proffesiynol dwys ar fethodoleg addysgu ieithoedd a'r iaith Gymraeg i ymarferwyr. Mae'r cyrsiau ar gael ar amrywiaeth o lefelau ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae mwyafrif y gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion i wneud y cyrsiau.

Mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn darparu mynediad i wersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Yn ystod 2025-26, bydd y Ganolfan yn parhau i ddatblygu darpariaeth bwrpasol newydd i ateb anghenion y sector. Er enghraifft, bydd cwrs peilot ar gyfer athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd ag ychydig o Gymraeg yn cael ei ddatblygu i'w ddarparu mewn modd hyblyg ynghyd â chwrs hyder / gloywi ar-lein byr ar gyfer y rheini sy'n addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau. Bydd £1.1m yn cael ei ddyrannu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2025-26 i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hyn yn £0.5m yn ychwanegol yn 2025-26 ac fe'i hariennir drwy drosglwyddo o elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Bydd £5.9m yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol a dyheadau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Mae'r cyllid hwn yn cynnwys £1.4m ar gyfer dysgu proffesiynol a £4.5m ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol. Gyda chyllid cyfatebol o 30% gan yr awdurdodau lleol, cyfanswm gwerth y Grant Cymraeg mewn Addysg yw £5.85m.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi dogfen dadansoddi data wedi'i diweddaru sy'n cyd-fynd â'r cynllun gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cefnogi'r cynnydd yn nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Fodd bynnag, mae angen mesur effaith nifer o'r gweithgareddau a ariennir ar sail tymor canolig i hirdymor. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar unwaith ar y gweithgareddau a ariennir, a byddwn hefyd yn gweithio'n agosach ag awdurdodau lleol i ddadansoddi'r data ar lefel leol i ddeall tueddiadau a blaenoriaethau allweddol i hysbysu'r Fframwaith Cenedlaethol a gynigir ym Mil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r targedau diwygiedig.

*Dadansoddiad o wariant ar y cynllun Iaith Athrawon Yfory ac o'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ogystal â chynlluniau eraill i gymell pobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu cyfrwng Cymraeg.*

Mae'r cynllun cymhelliad Iaith Athrawon Yfory yn darparu grant o £5,000 i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig uwchradd gymwys sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Gwneir y taliadau cymhelliad o £5,000 mewn 2 ran:

- £2,500 ar ôl cwblhau TAR gymwys yn llwyddiannus a chael dyfarniad SAC.
- £2,500 ar ôl cwblhau cyfnod cynefino llwyddiannus yng Nghymru (mewn ysgol uwchradd Gymraeg neu unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir os ydynt yn addysgu Cymraeg fel pwnc)

Mae Tabl 4 yn darparu crynodeb o'r hawlwyr a'r gwariant hyd yn hyn.

*Tabl 4: Gwariant cynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory*

| Blwyddyn Academaidd | Hawlwyr y Taliad SAC | Hawlwyr y Taliad Cynefino | Gwariant hyd yn hyn |
|---|---|---|---|
| AY2018/19 | 60 | 45 | £140,000 |
| AY2019/20 | 95 | 80* | £435,000* |
| AY2020/21 | 130 | 110* | £597,500* |
| AY2021/22 | 105 | 85* | £470,000* |
| AY2022/23 | 75 | 50* | £317,500* |
| AY2023/24 | 85 | | £215,000* |
| Cyfanswm yr Hawlwyr | 550 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn | £2,174,500 |

*Nodiadau'r tabl:*

- *Mae nifer yr hawlwyr wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf.*
- *Dim ond hawlwyr sy'n derbyn taliad SAC sy'n gymwys i dderbyn y taliad cynefino. Yn ogystal, i fod yn gymwys i dderbyn y taliad cynefino, rhaid i'r athro fod wedi cwblhau ei gyfnod cynefino statudol yn gweithio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu wrth addysgu Cymraeg fel pwnc mewn lleoliad cyfrwng Saesneg.*
- **yn dynodi bod y ffigur hwn yn destun newid oherwydd nid yw'r dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais am y taliad cynefino wedi mynd heibio eto (cywir ar 25ain Tachwedd 2024)*

Mae'r cynllun cymhelliant Pynciau â Blaenoriaeth yn darparu grant o £15,000 i fyfyrwyr sy'n astudio ar raglen Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-raddedig mewn pynciau penodol (pynciau â blaenoriaeth). Mae'r pynciau â blaenoriaeth yn cynnwys Cymraeg fel pwnc. Mae'r cynllun ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Mae'r taliadau cymhelliant o £15,000 yn cael eu talu mewn 3 rhan ar gyfer myfyrwyr amser llawn, neu 4 taliad ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, ar y pwyntiau a ganlyn yn ystod eu rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon a'u gyrfa gynnar:

Myfyrwyr amser llawn yn unig:

- £6,000 ar ôl cwblhau tymor cyntaf y TAR.

Myfyrwyr rhan-amser yn unig:

- £3,000 ar ôl cwblhau tymor cyntaf y TAR.
- £3,000 ar ôl cwblhau blwyddyn gyntaf a thymor cyntaf ail flwyddyn y TAR.

Myfyrwyr amser llawn a rhan-amser:

- £6,000 ar ôl cwblhau'r TAR yn llwyddiannus a chael dyfarniad SAR.

- £3,000 ar ôl cwblhau cyfnod cynefino'n llwyddiannus mewn lleoliad a gynhelir yng Nghymru

Gall unigolion cymwys fanteisio ar bob un o gynlluniau cymhelliant Llywodraeth Cymru. Ym mlwyddyn academaidd 2024/25 a'r flwyddyn academaidd nesaf 2025/26, mae cyfanswm o £25,000 ar gael i'r rheini sy'n bodloni gofynion y tri chynllun hyn:

- Cynllun Cymhelliant Pynciau â Blaenoriaeth (£15,000)
- Cynllun Iaith Athrawon Yfory (£5,000)
- Cynllun Cymhelliant i Gymunedau Ethnig Lleiafrifol (£5,000)

*Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau grant i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, ac asesiad o wariant, effaith a gwerth grantiau penodol megis Perthyn ar gyfer mentrau sy'n cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.*

Mae creu *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn un o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022 ac mae'n cynnwys nifer o ymyriadau i gefnogi cymunedau a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg.

Ar gyfer 2024-25, neilltuwyd cyllideb o £0.560m ar gyfer y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* fel a ganlyn:

*Perthyn*

Mae Cwmpas wedi bod yn gyfrifol am ddarparu Perthyn ers 2022. Mae'n brosiect sy'n ceisio darparu cymorth i gymunedau Cymraeg sydd â nifer uchel o ail gartrefi i ddatblygu mentrau cymunedol, tai a arweinir gan y gymuned ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol. Gwnaethom ddyrannu hyd at £0.350m i Cwmpas i ddarparu naill elfen y prosiect a'r llall yn 2024-25:

- Cynllun 'Grantiau Bach Perthyn' (£0.2m):
  Mae'r cynllun grantiau bach ar gael i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â nifer uchel o ail gartrefi i droi syniadau'n fentrau cymdeithasol hyfyw. Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yr angen am botyn bach o gyllid refeniw i helpu cymunedau i ddatblygu eu syniadau i gefnogi eu hanghenion cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol. Cyfanswm y dyraniadau grant sydd ar gael i bob grŵp yw £10,000. Hyd yn hyn, mae cynllun grantiau bach Perthyn wedi cefnogi cyfanswm o 47 o grwpiau cymunedol. Bydd hyd at 16 o brosiectau cymunedol yn derbyn cymorth ariannol drwy grantiau bach Perthyn yn ystod 2024-25.

- Gwasanaeth cyngor a chymorth pwrpasol (£0.15m):
  Mae elfen cyngor a chymorth pwrpasol Perthyn yn cefnogi grwpiau cymunedol penodol i droi eu syniadau yn fentrau cymdeithasol a phrosiectau tai a arweinir gan y gymuned hyfyw. Elfen graidd y prosiect hwn yw helpu i rymuso cymunedau i ddatblygu atebion i'r heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol y maent yn eu hwynebu. Gwneir hyn drwy ddarparu gwasanaeth cynghori cyfnod cynnar. Ers sefydlu'r prosiect hwn, rydym wedi gweld grwpiau cymunedol newydd yn cael eu sefydlu yn ogystal ag unigolion yn dod yn arweinwyr cymunedol effeithiol.

Mae £0.210m ychwanegol ar gael i gefnogi prosiectau eraill o fewn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (*gan gynnwys y gwaith ymchwil a gwerthuso'r cynllun) gan

gynnwys y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, Llysgenhadon Diwylliannol a'r 'Cynllun Cyfle Teg'.

*Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau grant i gefnogi cynllun Arfor 2, ac unrhyw werthusiad diweddar o effaith a gwerth am arian.*

Cyfanswm y cyllid Arfor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw £7m, ac mae £2m o'r arian hwnnw yn arian cyfalaf. Prif ddiben ARFOR 2 yw cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu'r cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Mae rhaglen ARFOR 2 wedi ceisio adeiladu ar brofiad y rhaglen beilot gynharach a'r gwerthusiad annibynnol ohoni, gan ategu hefyd yr ymyriadau presennol neu arfaethedig sy'n berthnasol. Cytunwyd ar yr amcanion strategol a ganlyn ar gyfer y rhaglen ARFOR 2, sy'n ceisio:

- creu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd (35 oed neu iau) aros yn eu cymunedau lleol neu ddychwelyd iddynt – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fenter neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sy'n bodloni eu dyheadau;

- creu cymunedau mentrus – cefnogi mentrau masnachol neu gymunedol sy'n ceisio diogelu a chynyddu cyfoeth lleol;

- gwneud y mwyaf o fanteision gweithgareddau ar y cyd – drwy sefydlu meddylfryd o ddysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu gan weithgaredd mewn un ardal i'w ymestyn i ardaloedd eraill;

- cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod yr iaith yn fwy gweladwy, gan bwysleisio beth sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

Mae'r rhaglen yn cynnwys pum elfen allweddol:

- Llwyddo'n Lleol
- Cymunedau Mentrus
- Cronfa Her ARFOR
- Bwrlwm ARFOR
- Gwerthusiad annibynnol / Gwersi a Ddysgwyd

Mae'r rhaglen yn weithredol ar hyn o bryd ac nid yw'r gwerthusiad parhaus wedi'i gwblhau eto. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â phartneriaid ynghylch dyfodol y rhaglen a'r cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio'r hyn a ddysgir ohoni.

# 4. Comisiynydd y Gymraeg

*Dyraniadau a sylwadau mewn perthynas â'r dyraniad cyllidebol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2025-26, gan gynnwys unrhyw gyllid refeniw neu gyfalaf ychwanegol a ddarperir.*

Yn unol â thybiaethau cynllunio Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau dull traws-lywodraethol o gyllido ein Comisiynwyr, rydym wedi cynyddu'r gyllideb refeniw ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg 3% (£0.096m) i gefnogi ariannu'r cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26. Rydym hefyd wedi pennu llinell sylfaen o £0.060m yng nghyllid 2025-26 ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus a'r cynnydd yn y costau pensiwn yn 2024-25. Mae hyn yn darparu cyfanswm cyllideb refeniw ar gyfer y Comisiynydd o £3.345m ar gyfer 2025-26.

Ni fu unrhyw newidiadau i gyllideb gyfalaf y Comisiynydd, sy'n aros yn £0.050m ar gyfer 2025-26.

Mae cyllideb nad yw'n arian parod y Comisiynydd wedi cynyddu £0.017m i £0.138m yn 2025-26, sy'n adlewyrchu'r cyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu'r safonau cyfrifo ar gyfer prydlesi IFRS16 (£0.026m) ac i gefnogi costau dibrisiant fel yr amlinellir yn amcangyfrif y Comisiynydd (-£0.09m).

*Sylwebaeth ar sut mae amcangyfrif o gyllideb y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft.*

Cyflwynodd y Comisiynydd Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2025-26 i Weinidogion Cymru ar 23 Hydref. Rwyf wedi archwilio'r Amcangyfrif, ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 10 Rhagfyr.

Gwnaeth Amcangyfrif 2025-26 gais am ddyraniad refeniw o £60,000 yn ychwanegol at ddyraniad 2024-25, sef £3.189m, gan ddod â'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025-25 i £3.249m. Roedd hyn i ariannu cyfraniadau pensiwn uwch gan gyflogwyr a'r dyfarniad cyflog. Yn yr achos hwn, rwy'n falch o allu dyfarnu dyraniad o £3.345m i'r Comisiynydd.

# 5. Gwariant Cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

*Cynnydd ar ehangu capasiti ac agor ysgolion Cymraeg newydd, dosbarthiad Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.*
*Manylion unrhyw wariant cyfalaf arall i gefnogi a hybu'r Gymraeg.*

Mae'r gyllideb gyfalaf cyfrwng Cymraeg wedi'i hariannu o BEL Seilwaith Addysg y MEG Addysg. Ei bwriad yw cynyddu capasiti mewn ysgolion Cymraeg, sefydlu darpariaeth Gymraeg newydd, cefnogi darpariaeth trochi hwyr yn ogystal â chefnogi dysgwyr o bob oed i wella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.

Sefydlwyd grant cyllid cyfalaf Cymraeg yn 2018 i gefnogi gweithredu *Cymraeg 2050* a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae dros £128m o gyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

Mae'r cyllid hwn yn ceisio cynyddu capasiti ysgolion Cymraeg, sefydlu darpariaeth Gymraeg newydd a chefnogi darpariaeth trochi hwyr Gymraeg yn ogystal â helpu dysgwyr o bob oedran i wella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.

Ceir ymrwymiadau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i agor 23 o ysgolion Cymraeg ac ehangu 25 sy'n bodoli eisoes. Ers 2022, mae buddsoddiad Band B a'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi 39 o brosiectau i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled Cymru, gan gynnwys:

- 14 o ysgolion newydd wedi'u hagor neu wedi'u hail-leoli i gynyddu eu capasiti i dderbyn rhagor o ddysgwyr.
- 25 o brosiectau i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg wedi'u cwblhau, sydd hefyd yn cynnwys rhai prosiectau gofal plant.

Mae cam nesaf y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi'i ddylunio i gyd-fynd â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd. Bu cydweithio gofalus â swyddogion y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer y Rhaglen Dreigl 9 mlynedd yn adlewyrchu gofynion a thargedau'r Cynlluniau Strategol 10 mlynedd. Mae cynlluniau pob awdurdod wedi'u cymeradwyo, ar wahân i Dorfaen, nad yw wedi cyflwyno ei gynllun eto.

Bydd cyllid Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn cael ei dargedu i ariannu meysydd blaenoriaeth fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, trochi, ehangu dros dro ac addysg i oedolion.

Pan fyddwn yn ystyried cynigion cynllunio ysgolion awdurdodau lleol, mae'n bwysig ein bod yn parhau i edrych ar y darlun mwy, e.e. effaith symud neu gyflwyno darpariaeth addysg Gymraeg ar gymuned leol; anghenion teithio; darpariaeth feithrin Gymraeg briodol. Mae angen ystyried ac archwilio'r holl faterion hyn yn ofalus i asesu eu heffaith ar addysg Gymraeg.

# 6. Crynodeb

Mae'r cyllidebau sy'n berthnasol i'r Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

# 7. Atodiadau

## Atodiad A – Manylion cyllidebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg fesul Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2023-24, 2024-25 a 2025-26

Adnoddau

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2023-24 | Cyllideb Derfynol 2024-25 (Meh 2024) | Cyllideb Atodol 1af 2024-25 (Hyd 2024) | Alldro Rhagol-ygol (Cyfnod 6) | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2024-25 Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Trosglwyddiadau i/o Brif Grwpiau Gwariant eraill | Trosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhag 2024) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | |
| MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | | | | | | | | |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 26,271 | 33,968 | 33,925 | 33,925 | 33,968 | 16 | 33,984 | 50 | 0 | 4,500 | 0 | 38,534 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,279 | 3,189 | 3,183 | 3,183 | 3,189 | 60 | 3,249 | 0 | 0 | 96 | 0 | 3,345 |
| | Comisiynydd y Gymraeg – Nad Ydynt yn Arian Parod | 187 | 121 | 147 | 147 | 121 | 0 | 121 | 0 | 0 | 26 | -9 | 138 |
| Cyfanswm BEL y Gymraeg (MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) | | 29,737 | 37,278 | 37,255 | 37,255 | 37,278 | 76 | 37,354 | 50 | 0 | 4,622 | -9 | 42,017 |
| MEG Addysg | | | | | | | | | | | | | |
| Cymorth Addysg Cyn-16 i Awdurdodau Lleol | Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 9,700 | 9,880 | 9,880 | 9,700 | 0 | 9,700 | 0 | -1,100 | 0 | 0 | 8,600 |
| Cyfanswm y BEL Cymorth Addysg Cyn-16 i Awdurdodau Lleol (MEG Addysg) | | 0 | 9,700 | 9,880 | 9,880 | 9,700 | 0 | 9,700 | 0 | -1,100 | 0 | 0 | 8,600 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 19,238 | 6,511 | 6,424 | 6,865 | 6,511 | 7 | 6,518 | 0 | 0 | 19 | 0 | 6,537 |
| | Cymraeg mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y BEL Cymraeg mewn Addysg (MEG Addysg) | | 19,242 | 6,511 | 6,424 | 6,865 | 6,511 | 7 | 6,518 | 0 | 0 | 19 | 0 | 6,537 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU SY'N YMWNEUD Â'R GYMRAEG | | 48,979 | 53,489 | 53,559 | 54,000 | 53,489 | 83 | 53,572 | 50 | -1,100 | 4,641 | -9 | 57,154 |

## Cyfalaf

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Cyllideb Atodol 1af (Hyd 2024) | Alldro Rhagol-ygol (Cyfnod 6) | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2024-25 Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Trosglwyddiadau i/o Brif Grwpiau Gwariant eraill | Trosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhag 2024) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | |
| MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | | | | | | | | | | | |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 94 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfanswm BEL Comisiynydd y Gymraeg (MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) | | 94 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| MEG Addysg | | | | | | | | | | | | | |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y BEL Cymraeg mewn Addysg (MEG Addysg) | | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU SY'N YMWNEUD Â'R GYMRAEG | | 107 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 |

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

16 Ionawr 2025

## Cyllidebau Diwylliant, Chwaraeon a Threftadaeth 2025-26

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am y penderfyniadau a wnaed wrth bennu'r Cyllidebau Diwylliant, Chwaraeon a Threftadaeth o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26.

# Cynnwys

1. Trosolwg o'r Gyllideb ........ 3
2. Cadw ........ 16
3. Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ........ 19
4. Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd ........ 21
5. Y celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru ........ 24
6. Y Cyfryngau a Darlledu ........ 27
7. Cymorth i'r sector cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu ........ 30
8. Chwaraeon ........ 33
9. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ........ 36

# 1. Trosolwg o'r Gyllideb

Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2025-26, mae £5m o refeniw wedi cael ei ddyrannu i flaenoriaethau yn y maes hwn ynghyd â £18.4m arall ar ffurf dyraniadau cyfalaf.

1. Mae ein **sectorau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon**, yn enwedig ein cyrff hyd braich a Cadw, wedi bod yn hollbwysig wrth gefnogi economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cymunedau a chefnogi ein hagenda i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hil, a sicrhau mwy o fynediad i gymunedau ledled Cymru. Maent yn darparu lleoedd gwych i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld â nhw. Mae cyllid drwy ein cyrff diwylliannol a chwaraeon yn fuddiol i fywydau plant a phobl ifanc, sy'n ddefnyddwyr ac yn gyfranwyr gweithgar at y celfyddydau, treftadaeth a'r sector diwylliannol. Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, rwyf wedi dyrannu **£5m o refeniw ac £18.4m o gyfalaf ychwanegol** i weithgareddau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon.

2. O'r refeniw ychwanegol a ddarperir, mae **£3.8m** wedi cael ei ddyrannu i gynyddu cyllidebau refeniw cyrff diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon er mwyn galluogi'r sefydliadau hyn i reoli pwysau cost chwyddiannol, gwneud cynlluniau ar gyfer dyfarniad cyflog yn y sector cyhoeddus yn 2025-26 a chyfrannu at gostau rhedeg parhaus **Celf**. Dyrannwyd £1.2m o refeniw ychwanegol i'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol. O'r swm hwn, mae dyraniad o £0.2m yn cynrychioli cynnydd tebyg i swyddogaeth asiantaeth datblygu amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol a gyflawnir yn fewnol gan yr Is-adran Diwylliant, gan gynnwys y staff a ariennir i gyflwyno gweithgareddau a rhaglenni allweddol.

3. Mae'r pwysau chwyddiannol ehangach sy'n cynyddu costau i gyrff diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon hefyd yn effeithio ar werth gwasanaethau, cyflogau ac allbynnau a gefnogir gan y grantiau y mae'r Is-adran Diwylliant yn eu rheoli fel rhan o'i rôl fel asiantaeth ddatblygu. Defnyddir y **£1m** sy'n weddill i gyflawni camau gweithredu a nodir o dan y **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** (gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol a amlygwyd yn yr ymgynghoriad, fel mynediad at ddiwylliant a chasgliadau, y gweithlu diwylliannol ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gyflawni canlyniadau sy'n cefnogi Blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar yr un pryd), a helpu i gyflwyno Celf - Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru mewn naw oriel. Mae hyn yn adfer rhywfaint o'r cyllid a gollwyd drwy Gyllideb Derfynol 2024-25 a wnaeth effeithio ar ein gallu i fynd i'r afael â'n Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn 2024-25. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol ac fel asiantaeth ddatblygu a'n hymrwymiadau i gefnogi Cymru wrth-hiliol.

4. Fel rhan o'r **dyraniad cyfalaf ychwanegol o £18.4m ar gyfer diwylliant, treftadaeth a chwaraeon**, caiff **£8.1m** ei ddyrannu yn 2025-26 i'r rhaglen cyfalaf diwylliannol sy'n lleihau anghydraddoldebau daearyddol yn sylweddol drwy alluogi pobl i gael mynediad i'n casgliad cenedlaethol, yn enwedig mewn mannau sy'n agosach i'r mannau lle maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw. Mae ehangu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o ddiwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol i bobl o bob cefndir yn flaenoriaeth. Bydd buddsoddi mewn seilwaith sy'n hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant ac yn sicrhau mwy o fynediad i bobl ledled Cymru yn agosach i'w cartrefi.

5. Mae'r **rhaglen buddsoddi cyfalaf diwylliannol** yn cynnwys datblygiadau mawr yn y gogledd gan gynnwys Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn Wrecsam ac Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, a ledled y wlad drwy Celf a'r Grantiau Trawsnewid i wasanaethau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynyddu'n sylweddol y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ledled Cymru ac yn helpu i gefnogi'r Gymraeg.

6. Bydd dyraniad **ychwanegol o £8.1m** yn golygu y gellir cynyddu gweithgarwch yn y meysydd canlynol:

- Cynyddu buddsoddiad i gefnogi prosiectau cyfalaf o dan y **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant**. Caiff hyn ei ddefnyddio i gyflymu buddsoddiad cyfalaf i amddiffyn yr adeiladau a'r asedau cyfalaf y mae ein hamgueddfeydd, ein harchifau a'n llyfrgelloedd lleol yn dibynnu arnynt, yn enwedig helpu i ddatgarboneiddio drwy ddefnyddio llai o ynni. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cefnogi gwaith digideiddio, cadwraeth ddigidol, a buddsoddiad yn yr asedau cyfalaf sydd eu hangen i archwilio cyfleoedd ym maes Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer ein sectorau ac, o bosibl, ganolfannau cymorth digidol. Gellir buddsoddi o bosibl mewn cyfarpar arddangos digidol fel y gellir cael mynediad i'r casgliad cenedlaethol digidol o fwy o leoliadau lleol, er enghraifft drwy Celf ar y Cyd, yn ogystal ag ehangu'r casgliad digidol drwy ychwanegu asedau lleol a darparu cyllid ar gyfer lleoliadau diwylliannol i'w helpu i osod blychau rhoddion sy'n derbyn cardiau credyd er mwyn cynyddu rhoddion i gefnogi'r sector. Bydd hyn yn cynnwys cyllid i ddatblygu a dechrau gweithredu rhaglen cofnodion a digideiddio yn 2025-26. Y nod fydd gwella safonau o safbwynt cadw dogfennau a mynediad at ddogfennau, ynghyd â datblygu atebion i ddiwallu anghenion yn y dyfodol a lleihau costau.

- Cynyddu buddsoddiad cyfalaf yn **Amgueddfa Cymru** yn ystod 2025-26, i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf hirddisgwyliedig sydd ei ddirfawr angen mewn safleoedd ar draws yr ystad, gan gynnwys, ymhlith eraill, y gwaith sydd angen ei wneud yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac Amgueddfa Lechi Cymru. Mae Amgueddfa Cymru yn un o'n trysorau cenedlaethol a bydd hyn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol ar ran Llywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen i wneud iawn am y diffyg buddsoddiad blaenorol a gwneud gwelliannau ar bob un o'i safleoedd. Bydd hyn yn helpu i

sicrhau bod y safleoedd yn ddiogel i'r cyhoedd, bod y casgliadau cenedlaethol sydd o dan ofal Amgueddfa Cymru yn ddiogel, a bod y sgiliau a'r technegau priodol yn cael eu defnyddio i ofalu am y safleoedd a'r adeiladau hanesyddol sy'n rhan o'i hystad.

7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod o greu Cymru iachach, a chymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl. Gan gydnabod pŵer ataliol chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, byddwn yn atgyfnerthu ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddefnyddio cyllid cyfalaf er mwyn buddsoddi mewn cyfleusterau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd mwy difreintiedig. Drwy hynny, byddwn yn hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o bob math. Caiff **£2m** arall, sy'n gwneud buddsoddiad o £10m i gyd, ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon drwy **Chwaraeon Cymru** yn y gyllideb hon.

8. Yn 2025-26, rwyf wedi dyrannu **£6.3m** arall i gyllideb gyfalaf **Cadw** i'w fuddsoddi yn yr amgylchedd hanesyddol sy'n cyfrannu'n sylweddol at lesiant economaidd Cymru a'i chymunedau. Mae'r cyllid yn cynnwys cymorth ar gyfer ail gam y gwaith o ddatblygu Castell Caerffili fel cyrchfan dreftadaeth o'r radd flaenaf, sy'n rhan hanfodol o waith adfywio **Tref Caerffili 2035**. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hefyd yn helpu i warchod ystad hanesyddol ehangach Cadw a'r rhaglen grant ar gyfer safleoedd hanesyddol ehangach sydd mewn perygl gan eu galluogi i gyfrannu at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach. Mae'r buddsoddiad hefyd yn cefnogi'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r strategaeth dwristiaeth **Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025.**

9. Mae astudiaethau amrywiol wedi dangos y gall ymgysylltu â threftadaeth, boed hynny drwy ymweld â safleoedd hanesyddol, gwirfoddoli, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau treftadaeth, gael sawl effaith gadarnhaol ar lesiant unigolion a chymunedau. Bydd y buddsoddiad cyfalaf yn helpu i gynyddu cynulleidfaoedd a hyrwyddo llesiant drwy ehangu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol ymhlith pobl o bob cefndir.

10. Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth lefel uchel am y newidiadau a wnaed drwy Gyllideb Ddrafft 2025-26. Ceir dadansoddiad ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn Atodiad A. Mae Atodiad B yn cynnwys esboniadau ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb.

11. Bydd addasiadau i linell sylfaen 2025-26 yn cynnwys dyraniadau yn y llinell sylfaen a fydd yn cael eu gwneud yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25 i roi cymorth ariannol ychwanegol i ymateb i effeithiau dyfarniad cyflog 2024-25 a'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r newidiadau i gyfraddau disgowntio SCAPE sydd wedi effeithio ar gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus heb eu hariannu ers i'r newid gael ei roi ar

waith ym mis Ebrill 2024. Gwnaed addasiadau hefyd i linell sylfaen cyllidebau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol er mwyn cyllidebu ar gyfer yr ad-daliadau sy'n ddyledus ar fenthyciadau yn 2025-26.

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26*** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26** | **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | **Cyllideb Ddrafft 2025-26** |
| | **(A)** | **(B)** | **(C = A + B)** | **(D)** | **(E = C + D)** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Bron yn Arian Parod | 111,816 | 1,071 | 112,887 | 4,999 | 117,886 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 10,162 | 0 | 10,162 | 2,028 | 12,190 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **121,978** | **1,071** | **123,049** | **7,027** | **130,076** |
| Cyfalaf | 55,366 | 0 | 55,366 | 18,421 | 73,787 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | -1,231 | 1,231 | 0 | -500 | -500 |
| **Cyfanswm y Cyfalaf** | **54,135** | **1,231** | **55,366** | **17,921** | **73,287** |
| **Cyfanswm** | **176,113** | **2,302** | **178,415** | **24,948** | **203,363** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20,000** | **0** | **20,000** | **4,000** | **24,000** |

## Gwerth am Arian

12. Mae eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Ers cael fy mhenodi yn Weinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ym mis Medi, rwy'n teimlo'n gyffrous am y datblygiadau cadarnhaol sydd gennym ar waith ac rwy'n teimlo'n eithriadol o angerddol am y portffolio. A hynny er gwaethaf cyd-destun heriol y 12 mis diwethaf.

13. Mae'r meysydd polisi sy'n rhan o'm portffolio yn rhychwantu llawer o agweddau ar lywodraeth a gallant wneud newid sylweddol a pharhaol i fywydau pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae ‘Diwylliant’, ‘Treftadaeth’, ‘Creadigol’ a ‘Chwaraeon’ yn elfennau hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac yn rhan annatod o'n hunaniaeth a'n llesiant unigol a chyfunol. Yn aml iawn, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, clybiau chwaraeon a safleoedd hanesyddol yw canolbwynt llawer o gymunedau ledled Cymru.

14. Rwyf am fod yn uchelgeisiol am sicrhau y gall pobl o gymunedau mwy difreintiedig gael mynediad i ddiwylliant ac am herio ein sefydliadau diwylliannol i ofyn beth y maent yn ei wneud i gyflawni hyn. Mae'r diwydiannau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol yn ehangu'r meddwl ac yn cynnig cymaint o gyfleoedd mewn bywyd.

15. Rwy'n awyddus bod y cyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu creu gan y twf aruthrol yn y sectorau hyn yn agored i bawb.

16. Ers cael fy mhenodi yn Weinidog, rwyf wedi pwysleisio'n rheolaidd bod gan bob unigolyn yng Nghymru yr hawl i gael mynediad i weithgarwch diwylliannol a chwaraeon ein cenedl, i greu ei weithgarwch ei hun, i gymryd rhan mewn gweithgarwch ac i weld ei fod yn cael ei adlewyrchu yn y gweithgarwch hwnnw. Mae pawb yn gwybod bod pethau wedi bod yn anodd a bod blynyddoedd o gyni wedi niweidio ein gwead diwylliannol yn ogystal â'n gwead cymdeithasol. Wrth inni adeiladu'r sylfeini ar gyfer adfer, rhaid inni gofio y dylid cyflawni twf mewn ffordd gynhwysol drwy sicrhau y gall pawb gael mynediad i'n diwylliant a'n chwaraeon gwych a chael budd ohonynt.

17. Mae'r sectorau o fewn fy mhortffolio yn gwneud cyfraniad sylweddol at ganlyniadau cymdeithasol ehangach, gan gynnwys cydlyniant cymunedol, iechyd meddwl a llesiant. Rwy'n glir iawn y gall fy mhortffolio gyfrannu'n gadarnhaol at bedair blaenoriaeth y Prif Weinidog. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- **Iechyd Da** - Ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau chwaraeon a gwella mynediad i chwaraeon, mae ymchwil yn dangos bod diwylliant, y celfyddydau a'n hamgylchedd hanesyddol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r cyrff hyd braich ym maes Diwylliant a Chwaraeon, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn y sector lleol a Cadw yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol, gan gynnwys rhaglen wirfoddoli arobryn Cadw, fel partner ym mhrosiect Hapus, presgripsiynu cymdeithasol, Y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant yng Nghymru, a Thŷ Atgofion Cymru i gefnogi dementia. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn helpu i gynnal cynllun Darllen yn Well ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ein hamcanion iechyd a llesiant. Mae Cymru Greadigol yn gweithio gyda sectorau â blaenoriaeth i wella iechyd a llesiant mewn gweithleoedd creadigol, drwy'r prosiect Hwyluswyr Lles a thrwy gysoni mecanweithiau ariannu i biler llesiant y Contract Economaidd.

- **Swyddi a Thwf Gwyrdd** - Mae ein cyrff hyd braich yn chwarae rôl arwain hollbwysig wrth fynd i'r afael â phob agwedd ar yr argyfyngau hinsawdd a natur drwy helpu'r cyhoedd i ymgysylltu drwy gyfrwng arddangosfeydd a chefnogi ein sefydliadau diwylliannol a'n clybiau chwaraeon i ddod yn fwy ynni effeithlon a gwella bioamrywiaeth. Mae Cadw yn arwain gwaith ymchwil i'r effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael ar asedau hanesyddol ac mae'n helpu i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, cymwysterau ôl-osod a deunyddiau hyfforddi ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sector ynni adnewyddadwy. Drwy ei raglenni gwaith a'i grantiau cyfalaf ei hun, mae Cadw yn rhoi gwaith i ymarferwyr cadwraeth medrus. Mae Cymru Greadigol yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i gyflawni'r argymhellion a nodwyd yng Nghynllun Trawsnewid Screen New Deal ar gyfer Cymru, er mwyn cefnogi dyfodol cynaliadwy i'r sector cynhyrchu yng Nghymru.

- **Cyfle i bob teulu -** Mae addysg wrth wraidd y gwaith y mae ein cyrff hyd braich a'n hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd a'n harchifau lleol yn ei wneud, a hynny o ran cyfleoedd dysgu gydol oes ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, Amgueddfa Cymru yw'r corff mwyaf sy'n darparu addysg y tu allan i'r system ysgolion yng Nghymru ac ochr yn ochr â buddsoddi yn y rhwydwaith llyfrgelloedd lleol, rydym hefyd yn ariannu

cynlluniau llythrennedd gan gynnwys Sialens Ddarllen yr Haf. O safbwynt tai, mae'r sgiliau a ddatblygir fel rhan o brosiectau cyfalaf Cadw yn rhai trosglwyddadwy y gellir eu cymhwyso i'r miloedd o adeiladau traddodiadol sy'n cyfrif am ganran uchel o'n stoc dai genedlaethol. Ym myd cyhoeddi, mae gwaith y Cyngor Llyfrau i hyrwyddo darllen a darparu llyfrau ac adnoddau addysgol yn chwarae rhan bwysig wrth wella safonau llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol. Mae Cymru Greadigol yn cefnogi ystod o brosiectau i ddatblygu sgiliau a thalent, mewn ffordd gynhwysol, agored a hygyrch.

- **Cysylltu Cymunedau -** Mae rhai o'r ymatebion i ymgynghoriad y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn pwysleisio pwysigrwydd trafnidiaeth er mwyn cael mynediad i ddiwylliant – bydd hyn yn llywio camau gweithredu. Mae Cadw yn dod â chymunedau ynghyd drwy gynnig ei safleoedd hanesyddol am ddim er mwyn cynnal digwyddiadau cymunedol. Mae llawer o'r safleoedd wrth wraidd eu cymunedau ac, felly, maent yn lleoliadau delfrydol ar gyfer digwyddiadau lleol. Erbyn hyn, caiff llyfrgelloedd lleol eu hystyried yn hybiau cymunedol mewn llawer o ardaloedd ac felly maent yn hollbwysig er mwyn dod â chymunedau ynghyd. Mae cymorth Cymru Greadigol ar gyfer y sector darlledu a sgrin annibynnol yn gwneud cyfraniad pwysig at gydlyniant cymdeithasol a chynhwysiant, gan gysylltu pobl o gefndiroedd gwahanol, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth genedlaethol.

18. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'm blaenoriaethau, mae gennyf brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni.

19. Nodir blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff hyd braich yn eu llythyrau cylch gwaith, a ddefnyddir ganddynt fel sail ar gyfer eu cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Rwy'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn â phob sefydliad, ac mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredol yn ffurfiol yn ystod cyfarfodydd chwarterol ac yn fwy rheolaidd drwy eu cydberthnasau gwaith agos ag uwch-dimau gweithredol y cyrff hyd braich. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd fel sylwedyddion, sy'n rhoi trosolwg da i Lywodraeth Cymru o broblemau posibl. Creffir ar hawliadau cymorth grant misol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn llinellau gwariant penodedig.

20. Caiff gweithgarwch a phrosiectau mawr eu monitro gan ddefnyddio Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru. Mae gan bob prosiect mawr drefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r prosiect penodol dan sylw. Caiff y rhain eu hadolygu'n aml i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cam y mae'r prosiect wedi'i gyrraedd. Caiff buddsoddiadau cyfalaf mawr eu hategu gan achosion busnes sy'n cael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys ystod o swyddogion Llywodraeth Cymru ac adolygiad annibynnol drwy adolygiadau porth. Caiff grantiau a chontractau cyfalaf a refeniw llai eu dyfarnu drwy broses gwneud cais agored neu drwy gomisiwn uniongyrchol. Caiff y rhain eu monitro gan swyddogion drwy gydol oes y prosiect, a chytunir ar yr elfennau i'w cyflawni a'r pwyntiau gwirio.

21. Mae Cynllun Tystiolaeth yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran Diwylliant yn eu cynnal neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn, ar sail trafodaethau â staff a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod gweithgarwch yn cefnogi blaenoriaethau allweddol yr Is-adran ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

22. Yn achos Cadw, mae trefniadau llywodraethu prosiect ar waith ar gyfer pob prosiect cyfalaf gwerth uchel cymhleth, sy'n cynnwys penderfyniadau porth allweddol a newidiadau mawr a gaiff eu hasesu gan Fwrdd Rhaglen Gyfalaf Cadw i'w cymeradwyo. Rhaid i brosiectau unigol ddangos gwerth am arian yn ogystal â buddiannau mesuradwy sy'n gyson ag amcanion Cadw a Llywodraeth Cymru. Caiff Cadw ei gefnogi hefyd gan Fwrdd annibynnol ag aelodau anweithredol sy'n cwrdd bob chwarter i graffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei gynllun busnes a'i adroddiadau ariannol a darparu her a chyngor.

23. Mae prosesau ar waith ar gyfer cynlluniau ariannu Cymru Greadigol i asesu ceisiadau yn erbyn meini prawf sy'n cynnwys effaith economaidd yn ogystal â'r gallu i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau thematig ehangach. Mae trefniadau monitro ar waith, yn ystod y cam cyflawni ac ar ôl i brosiectau gael eu cwblhau, er mwyn asesu cyflawniadau yn erbyn yr allbynnau a fwriadwyd. Mae gwerthusiad annibynnol o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol yn cael ei gynnal i asesu ei effaith. Yn ogystal, mae Cymru Greadigol wrthi'n comisiynu gwerthusiad o'i chyllid datblygu ar draws y sectorau sgrin, digidol a cherddoriaeth a'r swyddogaeth sgiliau.

## Gwariant Ataliol

24. Rwy'n cydnabod bod angen gwneud dewisiadau anodd o hyd. Mae'r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus ac ar lefel y cyllid sydd ar gael i'r maes hwn yn fwy penodol, yn golygu fy mod yn realistig ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu.

25. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl. Mae'r penderfyniadau gwariant nid yn unig wedi ystyried y ffordd orau o ateb y galw presennol am wasanaethau ond maent hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau a all atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn awr ac yn y dyfodol.

26. Mae treftadaeth a diwylliant yn cyfrannu at ymdeimlad unigolion a chymunedau o berthyn, hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymdeithasol. Mae penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cydnabod y cysylltiad ag iechyd meddwl a llesiant a'r cyfraniad cadarnhaol ar gyfer gwariant iechyd.Er enghraifft, buddsoddir yn Abaty Nedd mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol gyda'r bwriad o gynyddu'r cyfleoedd sydd

ar gael ar gyfer llesiant a hamdden yn y gymuned. Mae'r Abaty wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r ysgolion drwy ei raglen Ceidwaid Ifanc.

27. Mae buddsoddiadau yn henebion Cadw yn cynnwys mesurau i addasu i newid hinsawdd a newid y ffordd y caiff mannau gwyrdd eu rheoli er mwyn gwella bioamrywiaeth a helpu i ymateb i'r argyfwng natur.

28. O ddechrau fy ngwaith i baratoi ar gyfer y Gyllideb, rwyf wedi canolbwyntio ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynyddol mewn meysydd gwasanaeth allweddol o fewn fy mhortffolio yn wyneb cyllideb heriol arall. Dros flynyddoedd dilynol, mae blaenoriaethu gwariant ataliol wedi bod yn ffordd o osgoi ymyriadau mwy costus rywbryd yn y dyfodol a gwella ansawdd bywydau pobl yn yr hirdymor.

## Iechyd a llesiant

29. Cafodd pwysigrwydd diwylliant wrth hybu iechyd corfforol a llesiant cadarnhaol ei amlygu'n ddramatig gan y pandemig ac unwaith eto eleni mewn perthynas ag ymateb y sector i gostau byw cynyddol. Mae diwylliant a threftadaeth yn ddihangfa i lawer yn ystod y cyfnodau anodd ac ansicr hyn, ac mae ein sector bob amser yn arddangos ymatebion arloesol a chreadigol er mwyn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau.

30. Mae enghreifftiau o'r modd y mae ein sectorau wedi cyflwyno polisïau a rhaglenni ataliol yn 2024-25 yn cynnwys:

- Cynnal hybiau cynnes mewn llyfrgelloedd, ar ôl y cyfnod ariannu cychwynnol.
- Darparu llyfrau ar bresgripsiwn drwy gynllun ‘Darllen yn Well’.
- Datblygu ap Tŷ Atgofion Cymru sy'n defnyddio casgliadau amgueddfeydd i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Cynnal prosiect arddangos yn seiliedig ar fethodoleg ‘Change Minds’ fel bod pobl ag iechyd meddwl gwael yn ymgysylltu â chasgliadau archifau
- Cefnogi prosiect #Crowd Cymru er mwyn galluogi cyfleoedd gwirfoddoli o bell
- Drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon, rydym yn cynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn defnyddio pŵer ataliol chwaraeon i gefnogi'r agenda iechyd a llesiant
- Parhau â'r bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Byrddau Iechyd er mwyn darparu ystod o raglenni wedi'u teilwra i gefnogi llesiant.
- Cefnogi'r fframwaith ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol drwy raglenni gwirfoddoli wedi'u teilwra.
- Cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol â rhaglenni treftadaeth.

31. Mae 2025-26 yn edrych yn heriol o safbwynt yr hyblygrwydd ariannol sydd ar gael i'n sectorau i gefnogi gweithgarwch ataliol y tu allan i'w dibenion craidd. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar lesiant ac ar gyflawni nifer o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, strategaeth Cymru o Blaid Pobl Hŷn, a mynd i'r afael ag

unigrwydd ac ynysigrwydd eisoes wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn gweithgarwch dyddiol.

32. Ymhlith y prosiectau rydym yn rhagweld y cânt eu hariannu'n uniongyrchol yn 2025-26 mae ymestyn y cynnig llyfrau ar bresgripsiwn ar y cyd â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS) a'r Asiantaeth Ddarllen, a fydd yn cynnwys rhestr lyfrau newydd i gefnogi iechyd a llesiant amenedigol ac ôl-enedigol. Caiff y cynllun llyfrau ar bresgripsiwn ei werthuso gan yr Asiantaeth Ddarllen fel rhan o drefniadau monitro'r grant.

33. Bydd rhaglen Cyfuno yn 2025-26 yn ymgysylltu ag unigolion a chymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd. Bydd y Blaenoriaethau newydd ar gyfer Diwylliant yn cynnig lens strategol wahanol ar gyfer gwaith cynllunio gweithredol rhaglen Cyfuno yn 2025-26.

34. Gall chwaraeon fod yn adnodd ataliol effeithiol iawn o ran iechyd, ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor o ran cyfranogiad. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a Chynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft ddiweddar o lwyddiant yn y maes hwn.  Rydym hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau drwy ein cyllidebau addysg a chymunedau. Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau yng nghynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ‘Pwysau Iach: Cymru Iach’, gan gynnwys cyflwyno'r cynllun Hamdden Actif 60+.

35. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi iechyd a llesiant a chanlyniadau cadarnhaol. Mae cynllun Darllen yn Well Cyngor Llyfrau Cymru a'i waith i hyrwyddo darllen a darparu llyfrau ac adnoddau addysgol yn chwarae rhan bwysig wrth wella safonau llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol. Yn y sector sgrin, mae cymorth Cymru Greadigol ar gyfer y sector darlledu ac annibynnol yn gwneud cyfraniad pwysig at gydlyniant cymdeithasol a chynhwysiant, gan gysylltu pobl o gefndiroedd gwahanol, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth genedlaethol. Mae Cymru Greadigol yn gweithio gyda sectorau â blaenoriaeth i wella iechyd a llesiant mewn gweithleoedd creadigol, drwy'r prosiect Hwyluswyr Lles a thrwy gysoni mecanweithiau ariannu i biler llesiant y Contract Economaidd, yn ogystal â chefnogi ystod o brosiectau i ddatblygu sgiliau a thalent, mewn ffordd gynhwysol, agored a hygyrch.

## Deddfwriaeth

36. Mae asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai sy'n destun y ddeddfwriaeth yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau. Rwy'n cydnabod nad oes arian diddiwedd ar gael ar gyfer deddfwriaeth ac y bydd yn rhaid talu am bob ymrwymiad newydd yn y maes hwn drwy wneud toriadau rhywle arall.

37. Dyma pam mae pob bil yn destun asesiad cadarn o gostau a manteision, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol a gaiff eu paratoi ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

38. Mae camau'n cael eu cymryd i wella eglurder a chysondeb asesiadau effaith rheoleiddiol ond bydd newidiadau i'r bil yn ystod y cam craffu a ffactorau eraill yn arwain yn anochel at wahaniaethau rhwng y costau amcangyfrifedig pan gyhoeddir yr asesiad a'r costau gwirioneddol yn ystod y broses weithredu. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r Pwyllgor Cyllid, mae tabl sy'n dangos costau gweithredu'r ddeddfwriaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn nogfen Naratif y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr. Nid oes unrhyw gostau gweithredu yn gysylltiedig ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y maes hwn ar gyfer 2025-26.

## Y cyd-destun ariannol

39. Roedd cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i ddatblygu seilwaith i ymwelwyr henebion yn y gorllewin a'r gogledd o fudd mawr i Cadw. Er na all Cadw fanteisio'n uniongyrchol ar Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid. Mae'r cyfleoedd i ariannu rhaglenni a phrosiectau ar y cyd ac i ddod o hyd i gyfleoedd cyllido allanol yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn cyflawni canlyniadau ar y cyd, er enghraifft, yn Abaty Nedd. Mae'r Fenter Trawsnewid Trefi wedi arwain at gyfleoedd ariannu, naill ai'n uniongyrchol ar gyfer prosiectau treftadaeth neu ar gyfer prosiectau sy'n ategu mentrau treftadaeth, er enghraifft, mae Cynllun Creu Lleoedd Caerffili 2035 yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â'r buddsoddiad cyfalaf yng Nghastell Caerffili.

40. O safbwynt Cadw, mae niferoedd ymwelwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. O gymharu â 2022, roedd nifer y tripiau yr aed arnynt yng Nghymru yn 2023 3% yn is ond roedd gwariant 7% yn uwch. Cafodd y lleihad yn nifer y tripiau blynyddol yn 2023 ei lywio gan leihad sylweddol yn nifer y tripiau yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn. Fodd bynnag, mae disgwyl i dwristiaeth ryngwladol i Gymru ddychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn 2025. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod lleihad mewn incwm gwario o ganlyniad i'r

argyfwng costau byw a thywydd gwael, ymysg ffactorau eraill, wedi effeithio ar berfformiad ledled y DU.

41. Mae rhaglen Ewrop Greadigol wedi cael ei disodli gan y Gronfa Sgrin Fyd-eang a fu'n weithredol ers 2021, gyda chyllideb o oddeutu £7m y flwyddyn. Er bod nifer bach o fusnesau yng Nghymru wedi elwa o ganlyniad i'r rhaglen hon, prin yw'r budd cyffredinol i Gymru. Mae Cronfa Sgrin Fyd-eang y DU yn parhau i roi diweddariadau ar weithgarwch a dyfarniadau rhanbarthol ac mae hefyd wedi cynnal sesiwn friffio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gwledydd datganoledig wedi codi pryderon am y rôl gyfyngedig y maent yn ei chwarae yn y rhaglen. Hyd yma, nid oes unrhyw raglen wedi cael ei chyflwyno i gymryd lle is-raglen ddiwylliannol Ewrop Greadigol ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r gwledydd datganoledig eraill i godi materion a nodi opsiynau i gefnogi'r sector.

42. Mae costau cynyddol a chyllidebau llai yn parhau i effeithio ar sectorau ar draws y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys darlledwyr a chynyrchiadau Ffilm a Theledu sy'n pryderu bod costau uwch a materion chwyddiannol yn ychwanegu at heriau cyllidebol presennol ac effeithiau ehangach ar hyfforddeion ar gynyrchiadau sgrin sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw. Mae costau cynyddol ar ffurf prisiau ynni a chost deunyddiau yn effeithio ar y sector cyhoeddi hefyd, yn ogystal â'r sector cerddoriaeth, sydd hefyd yn wynebu refeniw is o ganlyniad i dueddiadau newydd yn ymddygiad cynulleidfaoedd a chyfraddau rhyddhad ardrethi is i leoliadau cerddoriaeth.

43. Yn ôl yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd diweddaraf (2022), *yn gyffredinol mae adferiad lefelau ymwelwyr ag amgueddfeydd wedi cyrraedd 69% ers lefelau cyn pandemig COVID-19*. *Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, amgueddfeydd annibynnol ac amgueddfeydd prifysgol wedi cyrraedd lefel adfer o fwy na 80%.* Yn 2023-24, cofnodwyd 1.56m o ymweliadau ar draws holl safleoedd Amgueddfa Cymru, a oedd yn rhagori ar ei tharged blynyddol o 1.46m o ymwelwyr ac yn gynnydd o 260,000 o gymharu â 22-23.

44. Mae costau ynni yn parhau i beri pryder mawr. Ers dechrau'r argyfwng costau byw, mae swyddogion wedi cael gwybod am effeithiau fel amgueddfeydd lleol yn cwtogi eu horiau agor, yn cau drwy gydol y gaeaf, yn lleihau lefelau gwres yn sylweddol ar y safle, ac yn codi eu ffioedd am wasanaethau. Mae rhai amgueddfeydd hefyd yn ystyried dileu swyddi. Nid yw llawer ohonynt yn recriwtio staff i swyddi gwag, hyd yn oed swyddi uwch a phwysig yn y sefydliad.

45. Mae pryderon yn cael eu mynegi am yr effeithiau canlyniadol ar iechyd meddwl a llesiant gwirfoddolwyr, cyfranogwyr cymunedol ac ymwelwyr (y mae llawer ohonynt yn agored i niwed) na allant dreulio amser yn yr amgueddfa o ganlyniad i'r oerfel neu gostau teithio.

46. Ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiad o effaith cronfa grant Costau Byw. Prif ddiben y gwerthusiad oedd asesu effaith y Gronfa ar y rhai a gafodd y grant a phennu effaith barhaus pwysau economaidd cyson a chostau cynyddol ar y sector amgueddfeydd a llyfrgelloedd ehangach. Canfu'r gwerthusiad fod y mwyafrif o'r rhai a gafodd y grant yn teimlo bod y cymorth a ddarparwyd yn

ddigon i'w helpu i reoli pwysau chwyddiannol. Cadarnhaodd pawb a gafodd y grant fod eu sefydliad neu wasanaeth yn weithredol o hyd, sy'n awgrymu bod amcan cyffredinol y Gronfa, sef cefnogi sefydliadau cymwys dros gyfnod y grant, wedi cael ei gyflawni.

## Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant

47. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus estynedig yn ystod haf 2024 ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant. Derbyniwyd 376 o ymatebion, gyda chynrychiolaeth dda o blith rhanddeiliaid y sector, unigolion a chynrychiolwyr cymunedau. Caiff Crynodeb o'r Ymatebion ei gyhoeddi'n fuan.

48. Roedd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn awgrymu bod y mwyafrif yn cefnogi'r holl Flaenoriaethau drafft cyhoeddedig a'r dyheadau ategol. Mae'r adborth mwy manwl a gafwyd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ein helpu i benderfynu beth yr hoffem ganolbwyntio arno yn gyntaf yn 2025-26.

49. Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod dyhead drafft 19 mewn perthynas â'r gweithlu, a dyhead drafft 20, mewn perthynas â datgarboneiddio'r sector ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn heriol. Roedd gofalu am gasgliadau a mynediad i gasgliadau a gwasanaethau diwylliannol yn ehangach yn peri pryder hefyd. Bydd y canfyddiadau hyn yn cyfrannu at waith cynllunio gweithredol ac yn ategu ein gwariant cyllidebol ar gyfer 2025-26.

## Cyrff Hyd Braich

50. Mae cyfrifoldeb ar gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, fel y cytunwyd yn eu llythyrau cylch gwaith, a chyfrannu at y nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae llythyrau cylch gwaith y cyrff hyd braich ym maes diwylliant a chwaraeon yn cwmpasu tymor y llywodraeth bresennol, o 2021 i 2026. Ynddynt, rwyf wedi amlinellu ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau i bobl Cymru ac wedi nodi ein 'nodau cyffredin' y dylai pob corff hyd braich eu hystyried wrth gyflawni ei amcanion. Ochr yn ochr â'r nodau cyffredin hyn, mae'r llythyrau cylch gwaith yn amlinellu meysydd eraill lle gall y cyrff hyd braich unigol helpu i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

51. Mae swyddogion wedi adolygu'r disgwyliadau a nodir yn llythyrau cylch gwaith y cyrff hyd braich ym maes diwylliant a chwaraeon ac, ar ôl trafod â'r sefydliadau eu hunain, maent wedi dod i'r casgliad bod y llythyrau yn cynnwys digon o hyblygrwydd i bob corff hyd braich barhau i gyflawni yn unol ag ef o fewn ei gynllun gweithredol ei hun. Mae'r llythyrau cylch gwaith yn parhau i nodi'n addas ein disgwyliadau cyffredinol ar gyfer tymor y llywodraeth hon ac yn rhoi cyd-destun strategol. Fodd bynnag, o gofio'r gyllideb is a gafodd pob un ohonynt yn 2024-25 yn ogystal â'r

lleihad diweddar yn eu niferoedd staffio, rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr bod angen pennu amcanion mwy realistig o ran yr hyn y gall y cyrff hyd braich ei gyflawni. Ym mis Gorffennaf 2024, gofynnodd swyddogion i bob un o'r cyrff hyd braich ym maes diwylliant a chwaraeon baratoi neu adolygu ei gynllun gweithredol ar gyfer 2024-25, gan ddangos sut y byddai'n cyflawni yn erbyn y meysydd a nodir yn ei lythyr cylch gwaith. Ar yr un pryd, gofynnodd fy swyddogion i'r cyrff hyd braich ystyried y cynnydd da a wnaed eisoes yn ystod tymor y llywodraeth hon yn ogystal â'u cyllideb ar gyfer 2024-25.

52. Mae'r dyraniadau cyllidebol arfaethedig ar gyfer y cyrff hyd braich ym maes diwylliant a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn fwy cadarnhaol na'r rhai yng nghyllideb 2024-25. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod effaith barhaus y gostyngiadau a wnaed yn 2024-25. Felly, wrth i'r cyrff hyd braich weithio ar eu cynlluniau gweithredol ar gyfer 2025-26, bydd swyddogion yn parhau i drafod â nhw ddisgwyliadau realistig ar gyfer sut y gallant gyflawni yn erbyn eu llythyrau cylch gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

# 2. Cadw

## Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, rwyf wedi cynyddu cyllideb refeniw Cadw £0.43m ac wedi cynyddu ei gyllideb gyfalaf £6.3m.

53. Mae Cadw yn blaenoriaethu'r cyfrifoldebau statudol a gyflawnir ganddo ar ran Gweinidogion Cymru i gynnal, cadw a darparu mynediad diogel i'r cyhoedd i'r 131 Eiddo mewn Gofal hanesyddol. Mae hefyd yn blaenoriaethu ei rôl reoleiddio statudol i nodi, dynodi a rheoli lleoedd hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol fel eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn 2025-26, bydd y refeniw ychwanegol o £0.43m yn cefnogi cyflogau, gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cynhyrchu refeniw a phwysau chwyddiannol wrth gynnal a chadw a gwarchod yr henebion.

54. Yn 2025-26, bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £6.3m uwchlaw'r llinell sylfaen yn golygu y bydd modd buddsoddi yn yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gyfrannu at lesiant economaidd Cymru a'i chymunedau. Mae'r cyllid yn cynnwys cymorth ar gyfer ail gam y gwaith i ddatblygu Castell Caerffili a buddsoddiad yn y seilwaith TGCh yng nghanolfannau ymwelwyr a chanolfannau cadwraeth Cadw. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith cadwraeth mewn perthynas ag ystad hanesyddol ehangach Cadw a'r rhaglen grant ar gyfer safleoedd hanesyddol ehangach sydd mewn perygl mewn partneriaeth â sefydliadau treftadaeth eraill gan eu galluogi i gyfrannu at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach. Mae buddsoddiad hefyd yn cefnogi'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r strategaeth dwristiaeth Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025.

### Cynhyrchu incwm

55. Mae cynhyrchu incwm yn ganolog i gynaliadwyedd ariannol Cadw. Mae Cynllun y Gyllideb Ddrafft yn 2025-26 yn seiliedig ar darged i gynyddu incwm 5% er mwyn cyflawni'r targed o £11.42m o incwm masnachol.

56. Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn refeniw, bydd y targed incwm yn cefnogi llawer o'r pwysau chwyddiannol sy'n parhau i wynebu Cadw yn enwedig o ran cyflogau, ymgysylltu â'r cyhoedd a chadwraeth er mwyn sicrhau bod ein safleoedd yn parhau i fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da i groesawu ymwelwyr. Fodd bynnag, bydd y mwyafrif helaeth o henebion Cadw yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd am ddim.

57. Mae buddsoddiad cyfalaf ar gyfer gwaith cadwraeth ar henebion, mesurau iechyd a diogelwch a chyfleusterau ymwelwyr yn flaenoriaeth bwysig er mwyn gwella arlwy Cadw a'i allu i gynhyrchu incwm. Mae'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £6.3m uwchlaw'r llinell sylfaen o £10m yn cynnwys darpariaeth i barhau i ddatblygu Castell Caerffili fel cyrchfan dreftadaeth o'r radd flaenaf gan gefnogi gwaith adfywio Tref Caerffili 2035. Bydd hyn yn helpu i gynyddu cynulleidfaoedd a hyrwyddo llesiant

drwy ehangu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol ymhlith pobl o bob cefndir.

## Asedau Hanesyddol

58. Ar gyfer 2025-26 mae'r gyllideb i gefnogi asedau hanesyddol yn gwneud darpariaeth ar gyfer prosiectau grant presennol, prosiectau yn yr arfaeth sy'n cael eu datblygu a grantiau arbennig i ymateb i bryderon cadwraeth difrifol mewn asedau treftadaeth ddiwydiannol proffil uchel. Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, a pherchnogion preifat sy'n berchen ar y mwyafrif ohonynt. Mae'r asedau treftadaeth hyn yn amrywio o henebion cynhanesyddol i adeiladau o'r ugeinfed ganrif sydd oll yn helpu i ddiffinio ein dinasoedd, ein trefi, ein pentrefi a'n tirweddau heddiw. Maent yn etifeddiaeth bwysig i genedlaethau'r dyfodol hefyd.

59. Nid yw rhestru adeilad na chofrestru heneb yn rhoi unrhyw hawl awtomatig i gymorth grant. Fel gydag unrhyw adeilad, y perchennog sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen ymyriadau cadwraeth weithiau i sicrhau y gall asedau gael eu hamddiffyn a'u cynnal a'u cadw er budd cymunedau nawr ac yn y dyfodol. Mae Cadw yn cynnal arolygon i asesu cyflwr cadwraeth asedau hanesyddol dynodedig ac yn eu defnyddio i nodi'r henebion a'r adeiladau sy'n wynebu'r risg fwyaf. Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio cynlluniau grant Cadw er mwyn cefnogi gwaith cadwraeth ar asedau hanesyddol sydd mewn perygl. Mae'r cynlluniau yn targedu gwahanol fathau o asedau ac maent yn seiliedig ar feini prawf dethol, dyfarniadau gwerth am arian yn erbyn amcangyfrifon o gostau a gyflwynir gan y ceisydd, a chanlyniadau disgwyliedig, a chaiff y rhain oll eu hasesu gan Arolygwyr Cadw.

60. I gefnogi perchnogion asedau hanesyddol, mae Cadw wedi cyhoeddi ystod helaeth o ganllawiau a chyfeiriadau at y cyllid grant sydd ar gael y gellir eu lawrlwytho am ddim o wefan Cadw. Darperir cyllid grant drwy'r cynlluniau grantiau cyfalaf canlynol:

- **Grantiau Cyfalaf ar gyfer Adeiladau Hanesyddol** – ar gyfer atgyweirio adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu dan fygythiad.
- **Grantiau Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Adeiladau Hanesyddol –** ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar raddfa fach.
- **Gwaith Brys ar gyfer Adeiladau mewn Perygl –** grantiau i awdurdodau lleol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno Hysbysiadau Gwaith Brys

er mwyn diogelu cyflwr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu dan fygythiad.

- **Grantiau Henebion –** i helpu perchnogion henebion gyda gwaith atgyweirio a chadwraeth ar safleoedd sy'n amrywio o rai Neolithig i adeiladau o gyfnod y chwyldro diwydiannol.

# 3. Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rwyf wedi cynyddu cyllidebau refeniw'r ddau sefydliad hyn yn 2025-26, £0.9m i Amgueddfa Cymru a £0.4m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Rwyf hefyd wedi gwneud dyraniadau cyfalaf o £5m i Amgueddfa Cymru a £2m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ynghyd â chyfalaf ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol.

### Amgueddfa Cymru

61. Er fy mod yn gwybod bod pethau'n anodd o hyd i'r sector diwylliant yng Nghymru, rwy'n rhagweld y bydd y cynnydd yng Nghymorth Grant refeniw Amgueddfa Cymru yn 2025-26 yn ei helpu i roi codiad cyflog parhaol, priodol i'w gweithlu, cynnal lefelau staffio a chadw'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i ofalu am ein casgliadau cenedlaethol a helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

62. Fy mholisi o hyd yw cynnig mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol er mwyn annog ystod amrywiol o ymwelwyr. Er bod hyn yn cyfyngu ar opsiynau Amgueddfa Cymru i godi incwm, mae'n gosod targedau cynhyrchu incwm blynyddol ac yn parhau i brofi cyfuniad o opsiynau ar gyfer mwy o gyfleoedd cynhyrchu incwm yn ogystal â datblygu ei strategaeth cynhyrchu incwm newydd.

63. Rwy'n cydnabod yr heriau y mae ein cydweithwyr yn Amgueddfa Cymru yn eu hwynebu wrth ofalu am adeiladau hanesyddol a chadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel. Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda nhw i flaenoriaethu gofynion cynnal a chadw. Yn ogystal â chynnal lefel y Cymorth Grant cyfalaf, sef £5m, rwy'n darparu cyllid ychwanegol i Amgueddfa Cymru drwy'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol i gefnogi gwaith cyfalaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Castell Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

64. Bydd y cynnydd i'w Chymorth Grant refeniw yn 2025-26 yn helpu'r Llyfrgell Genedlaethol i roi codiad cyflog parhaol, priodol i'w gweithlu. Mae'r Llyfrgell yn perfformio'n dda o ran denu rhoddion elusennol a chymynroddion ond mae'r targed

cynhyrchu incwm masnachol yn anodd iddi, gan fod ganddi lai o opsiynau ar y safle i gynhyrchu refeniw o gymharu ag Amgueddfa Cymru, er enghraifft. Nid yw'n briodol i'r Llyfrgell godi tâl am y rhan fwyaf o'i gwasanaethau ac nid oes ganddi lawer o ddewis o safbwynt codi arian ychwanegol heblaw drwy roddion, gweithgarwch masnachol neu ar gyfer gweithgareddau prosiect. Er gwaethaf hyn, mae wedi sefydlu cyfarwyddiaeth i arwain gwaith codi arian ac mae'n datblygu strategaeth codi arian newydd, a fydd yn cynnwys ei thargedau cynhyrchu incwm.

65. Diolch i'r cyllid cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd gennyf yn 2024-25, mae gwaith atgyweirio ar do'r Llyfrgell Genedlaethol ar y trywydd cywir a chaiff ei gwblhau ym mis Mawrth 2025. Mae Cymorth Grant cyfalaf y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2025-26 yn aros yr un fath ar £2m ac mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu hefyd o'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol i alluogi'r Llyfrgell Genedlaethol i gwblhau'r gwaith atgyweirio brys sydd ei angen ar ddwy o'i hunedau silffoedd llyfrau. Mae posibilrwydd hefyd y bydd mwy o gymorth cyfalaf ar gael i'r Llyfrgell.

66. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru hefyd wedi wynebu heriau mawr yn sgil lleihad yn y gyllideb refeniw a ddyrannwyd iddo yn 2024-25. Bydd y cynnydd o 3% i gyllid refeniw Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn ei helpu i gadw ei staff arbenigol a pharhau â'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud ar ran pobl Cymru. Nid yw ei ddyraniad cyllid cyfalaf o £50k wedi newid ac mae posibilrwydd y bydd cymorth cyfalaf ychwanegol ar gael iddo ar gyfer prosiectau penodol o'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon Lleol. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cynhyrchu rhywfaint o incwm masnachol e.e. drwy ddarparu gwasanaethau a chyhoeddi llyfrau.

67. Mae adolygiad o'r gydberthynas rhwng y Comisiwn Brenhinol a Cadw yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rwyf wedi ymrwymo i roi diweddariad i'r Senedd ar hyn yn ystod gwanwyn 2025.

## Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

68. Nid yw Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn gorff hyd braich ond mae'n cael grant prosiect bob blwyddyn. Bydd cynnydd cyfatebol i'w dyraniad refeniw ac ni fydd ei dyraniad cyfalaf yn newid. Y nod yw ei helpu i dalu costau staffio ac ymdopi â phwysau chwyddiannol.

# 4. Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd

## Strategaethau Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd

69. Mae cyfanswm dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol yn cynnwys refeniw gwerth £7.88m a chyfalaf gwerth £32.8m, heb gynnwys y cymorth i'r cyrff hyd braich a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a nodir yn y llinellau cyllideb perthnasol.

70. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 ac mae cyfrifoldeb ar Weinidogion i oruchwylio'r ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Yng Nghymru, caiff y ddyletswydd hon ei chyflawni drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (neu'r Safonau) a byddwn yn parhau i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn o fewn fframwaith adrodd diwygiedig. Yn achos archifau, mae cyfrifoldebau statudol ar waith mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer cofnodion llywodraeth leol a Mannau Adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Rydym yn gweinyddu Cynlluniau Eiddo Diwylliannol y DU, gan gynnwys Derbyn Eitemau yn Lle Treth, a Chynllun Indemniad y Llywodraeth ac rydym yn cyllido'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru. Mae sicrhau bod y gofynion statudol hyn yn cael eu bodloni yn weithgaredd pwysig o fewn y dyraniad cyllidebol.

71. Fy mhrif flaenoriaeth yw mynd i'r afael â'r Blaenoriaethau Diwylliannol. Mae disgwyl i hyn gynnwys gwaith i wella mynediad ffisegol a chynrychiolaeth cymunedau amrywiol yn arddangosiadau a chasgliadau ein sectorau lleol, gan ddefnyddio casgliadau lleol at ddibenion iechyd a llesiant ac i ymgysylltu ag ysgolion, gofalu'n well am gasgliadau a chefnogi trefniadau llywodraethu da a chydnerthedd ymhlith sefydliadau. Bydd y rhwydwaith gwasgaredig o orielau a gyflwynir drwy Celf – Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, yn chwarae rôl bwysig yn hyn o beth. Byddaf yn buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu casgliadau digidol a gwella sgiliau er mwyn cynyddu cydnerthedd, mynediad i gasgliadau drwy ddigideiddio, a chynyddu ymgysylltiad. Mae Celf ar y Cyd yn enghraifft glir o sut y gellir gwella mynediad i weithiau wedi'u digideiddio a bydd yn parhau i dyfu. Yn ogystal, bwriedir llunio cynllun newydd i nodi a chydnabod eitemau o arwyddocâd cenedlaethol a ddelir fel rhan o gasgliadau amgueddfeydd lleol am y tro cyntaf.

72. Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn unol â'n cyfrifoldebau fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer y sectorau hynny yng Nghymru. Byddwn yn gweithio'n strategol gyda chyrff cefnogi allweddol y sectorau i ddatblygu capasiti a chydnerthedd y sectorau hynny, gan sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni, a bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal er budd defnyddwyr. Rydym yn cefnogi mentrau cydweithredol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, gwerth am arian,

cydnerthedd gwasanaethau a mynediad cyfartal i gasgliadau ym mhob sector. Byddwn yn parhau i helpu'r sector i greu'r seilwaith sydd ei angen i helpu i ddarparu gwasanaethau digidol.

73. Drwy bartneriaethau cyllido â'n cyrff cefnogi allweddol yn y sectorau, trefniadau hyfforddi a gwaith i ddatblygu'r gweithlu a phrosiectau a rhaglenni gwahanol, byddwn yn sicrhau bod asedau ffisegol a digidol sy'n rhan o gasgliadau archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn cael eu rheoli, eu cadw a'u hamddiffyn, a'u bod yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio.

74. Yn y sector llyfrgelloedd, byddwn yn parhau i gefnogi mynediad digidol i adnoddau electronig drwy'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Cenedlaethol. Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu mynediad drwy lyfrgelloedd cyhoeddus i'r cynllun Darllen yn Well, sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant. Byddwn yn sefydlu cynllun newydd i gefnogi llythrennedd plant a'u hannog i ddarllen er pleser drwy ymgysylltu ag ysgolion cynradd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, ochr yn ochr ag ymdrechion parhaus i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf.

75. Rwy'n bwriadu parhau â'r rhaglen Grantiau Trawsnewid Cyfalaf i gyllido datblygiadau a gwelliannau cyfalaf, gan gynnwys prosiectau digidol, er mwyn cefnogi datgarboneiddio a'r rhai sy'n hyrwyddo cydraddoldebau. Rwyf hefyd yn bwriadu cyllido rowndiau pellach o'r Grantiau Gwella Cyfalaf ar gyfer Rheoli Casgliadau er mwyn galluogi amgueddfeydd ac archifau lleol i wella eu cyfleusterau ar gyfer storio casgliadau.

## Adolygiad o Amgueddfeydd Lleol

76. Mae'r Adolygiad Arbenigol bron yn ddeg mlwydd oed erbyn hyn. Mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector amgueddfeydd lleol yn adlewyrchu'r amgylchedd ariannol a chymdeithasol presennol y mae'r Llywodraeth ac amgueddfeydd bellach yn gweithio o'i fewn, yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar roi argymhellion yr Adolygiad ar waith.

77. Roedd ymarferoldeb llawer o argymhellion yr Adolygiad yn dibynnu ar weithredu'r argymhelliad i greu tri chorff rhanbarthol *'i roi arweiniad gweithredol i amgueddfeydd a ddarperir yn lleol, eu rheoli a'u cefnogi'* er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu darparu. Aelodau a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ledled Cymru oedd yn gyfrifol am benderfynu ar hyn ac yn 2015, nid oedd yn flaenoriaeth i uwch-swyddogion nac aelodau etholedig. Mae amcangyfrifon o'r cyllid sydd ei angen i sefydlu a rhedeg y cyrff rhanbarthol hyn yn awgrymu goblygiadau cost sylweddol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, gan gydnabod y pwysau ariannol aruthrol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, ni fu'n bosibl rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

78. Wrth inni symud ymlaen i gam gweithredu'r Blaenoriaethau newydd ar gyfer Diwylliant, mae cyfle i ystyried yr opsiynau gorau o ran parhau i gefnogi amgueddfeydd lleol. Yn 2025-26, caiff gwaith ei wneud a fydd yn cefnogi nifer o argymhellion yr Adolygiad.  Drwy gylch gwaith yr Is-adran Diwylliant fel asiantaeth ddatblygu'r sector amgueddfeydd yng Nghymru a'i phartneriaethau â sefydliadau allweddol sy'n cefnogi'r sector, caiff ymyriadau a gweithgarwch strategol eu cydlynu ar draws amgueddfeydd lleol.

79. Gan ddefnyddio'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd fel fframwaith, caiff cyllid a chyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni eu darparu, a fydd yn canolbwyntio ar ofalu'n well am gasgliadau a gwella profiadau ymwelwyr a defnyddwyr. Byddaf yn gwneud hyn drwy ddarparu cynlluniau grant cyfalaf, caffaeliadau a chyllid i sefydliadau sy'n cefnogi'r sector, fel y Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, Art UK, Group for Education in Museums a Kids in Museums. Bydd gwaith yn canolbwyntio ar wella mynediad ar y safleoedd eu hunain ac ar-lein, cynrychioli cymunedau amrywiol mewn arddangosiadau a chasgliadau, a gofalu am gasgliadau.

80. Gan adeiladu ar y gwaith ymchwilio a wnaed dros y tair blynedd ddiwethaf, byddaf yn sefydlu cynllun newydd i gydnabod eitemau o arwyddocâd cenedlaethol a ddelir fel rhan o gasgliadau amgueddfeydd lleol.  Caiff cyllid ei ddarparu nid yn unig i greu a gweinyddu'r cynllun, ond hefyd i gynyddu capasiti amgueddfeydd i gynnal adolygiadau o arwyddocâd eu casgliadau, gan ddefnyddio **Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau ar gyfer amgueddfeydd Cymru | LLYW.CYMRU.**

81. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r sector amgueddfeydd lleol drwy gynnig rhaglen datblygu gweithlu o ansawdd uchel, gan gynnwys hyfforddiant, cyngor a chymorth, mynediad i rwydweithiau a grantiau i fynd i gynadleddau drwy gyllid a ddarperir i Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.

# 5. Y celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru

Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, rwyf wedi cynyddu cyllideb refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru £1.095m i £31.588m.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

82. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau ei ddarparu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), sy'n gweithredu o dan yr egwyddor cyllido hyd braich, o fewn y fframwaith strategol a ddarperir gennym.

83. Dyraniad refeniw CCC yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yw £31.588m, sy'n gynnydd o £1.095m o gymharu â Chyllideb Derfynol 2024-25 (llinell sylfaen wedi'i haddasu).

84. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu sector y celfyddydau yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys yr heriau sy'n deillio o bwysau cyllidebol. Fel asiantaeth ddatblygu sectorau'r celfyddydau yng Nghymru, mae CCC yn dosbarthu dros 90% o'i gyllid blynyddol i sector y celfyddydau drwy gyllid amlflwyddyn a chymorth prosiect. Mae dyraniadau a wneir i CCC yn cefnogi sectorau'r celfyddydau yn uniongyrchol ac yn effeithio ar fynediad pobl i'r celfyddydau ledled Cymru.

85. Nid yw cyllideb gyfalaf graidd CCC ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sef £400,000, yn newid. Yn ogystal, rwy'n cynnig dyraniad ar gyfer Buddsoddiad Cyfalaf Strategol yn Sector y Celfyddydau gyda CCC drwy'r gyllideb Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol, yn ogystal ag ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Caiff y cynnig hwn ei ddatblygu ymhellach â CCC. Caiff cyllid i gefnogi'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd ei ddarparu o hyd drwy CCC.

## Mynediad i'r celfyddydau

86. Mae CCC yn cefnogi gweithgarwch celfyddydol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a bydd y dyraniadau yn 2025-26 yn parhau i gefnogi a hyrwyddo cyfraniad hanfodol y celfyddydau i Gymru. Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn llythyr cylch gwaith y Llywodraeth i CCC. Mae CCC yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i Gymorth Grant fel arian craidd ar gyfer sefydliadau celfyddydol strategol, ac rydym yn disgwyl iddo barhau i flaenoriaethu mynediad a gwaith ymgysylltu.

87. Yn sgil proses Adolygu Buddsoddiad CCC ar gyfer 2024-25, mae Llywodraeth Cymru yn falch bod 81 o sefydliadau bellach yn cael cyllid amlflwyddyn drwy CCC,

gan gynnwys 23 o sefydliadau newydd, sy'n golygu bod carfan fwy amrywiol o sefydliadau yn cael cymorth.

88. Mae CCC hefyd yn parhau i gyflwyno ei Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar y cyd ag Amgueddfa Cymru, sy'n ceisio ehangu ymgysylltiad â'r celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau ymhlith pobl ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar dlodi lled-wledig, pobl fyddar ac anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

89. Wrth fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr, yn enwedig Theatr Clwyd a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, y nod yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a darparu mynediad gwell, yn enwedig yn y gogledd a'r canolbarth.

## Cynhyrchu incwm

90. Yn ogystal â ffrydiau cyllido gan Lywodraeth Cymru, mae CCC yn cael ac yn dosbarthu cyllid gan y Loteri Genedlaethol ac ymddiriedolaethau elusennol.

91. Yn achos yr holl geisiadau grant a gyflwynir i CCC am gyllid prosiect ac amlflwyddyn, mae'n rhaid i'r sefydliadau a'r unigolion sy'n gwneud cais gyflwyno cyllideb a gaiff ei hadolygu fel rhan o'r broses asesu. Mae CCC yn disgwyl i sefydliadau ddangos sut y maent wedi codi cyfran o'r cyllid a chaiff hyn ei asesu fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n gwneud cais am gyllid amlflwyddyn ddarparu niferoedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr wedi'u targedu fel rhan o'u harolwg blynyddol. Mae'n ofynnol i bawb sy'n gwneud cais am gyllid prosiect am flwyddyn unigol ddarparu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses gwneud cais am gyllid Loteri. Caiff y ffigurau hyn eu cadarnhau drwy'r adroddiadau cwblhau a gaiff eu cyflwyno gan y sawl sy'n derbyn y grant ar ddiwedd ei brosiect.

92. Mae Rhaglen Creu CCC yn rhoi cyfle i unrhyw sefydliad wneud cais am gymorth datblygu busnes a gellir cyflwyno ceisiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae ceisiadau i raglen Creu yn aml yn canolbwyntio ar y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu, gan gynnwys sut mae ei fodel ariannol yn gweithio a sut y gellid ei wella. Yn ogystal, drwy raglen gyfalaf CCC, gall lleoliadau wneud cais am gyllid i wella eu cyfleusterau a'u harlwy er mwyn cynyddu niferoedd y perfformiadau a'r gynulleidfa.

93. Yn ddiweddar, mae CCC wedi cyhoeddi'r **Asesiad Economaidd** a gomisiynwyd ganddo a gynhaliwyd gan yr arbenigwyr ymchwil annibynnol, Deyton Bell. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y cyllid y mae'n ei ddosbarthu ar ran Llywodraeth Cymru o fudd economaidd sylweddol i Gymru gyfan, gan fod £2.51 (yn 2023-24) yn cael ei ddychwelyd i'r economi am bob £1 o gyllid cyhoeddus a dderbynnir gan CCC.Mae'r adroddiad yn dangos bod cyflogaeth yn y diwydiannau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol yng Nghymru wedi cynyddu 28% dros y degawd diwethaf,

o 28,900 yn 2014 i'r lefel a gofnodir ar hyn o bryd, sef 36,960. Roedd gan y diwydiant celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru drosiant o £1.64b yn 2023-24.

94. Mae CCC yn cydweithio ac wedi llunio partneriaethau â sawl sefydliad sy'n anelu at nodau tebyg. Mae'n bosibl y caiff y cydberthnasau hyn eu llywodraethu gan Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, Cytundebau Partneriaeth, neu Gytundebau Cydweithio sydd, yn eu tro, yn darparu mwy o adnoddau ariannol / cyfleoedd ac yn cynhyrchu mwy o incwm ar gyfer sefydliadau celfyddydol ac unigolion creadigol, gan gynnwys Orielau Celf Gyfoes Cenedlaethol - CELF a'r Cymrodoriaethau Natur Greadigol â Cyfoeth Naturiol Cymru.

95. Fel gwarcheidwaid arian cyhoeddus, mae CCC yn cydnabod ei gyfrifoldeb i gyflwyno buddiannau gweladwy ac ystyrlon i'r Sector ac i'r cyhoedd. Mae'r celfyddydau yn chwarae rôl sylfaenol wrth wella ansawdd bywyd unigolion, meithrin cydlyniant cymdeithasol ac ysgogi twf economaidd.

# 6. Y Cyfryngau a Darlledu

Yn 2025-26 cyfanswm dyraniad cyllidebol Cymru Greadigol yw £6.536m mewn refeniw a £7m mewn cyfalaf.

Bydd Cymru Greadigol yn cefnogi ei sectorau â blaenoriaeth drwy ystod o fecanweithiau cyllido i ysgogi mwy o dwf yn y diwydiannau creadigol, helpu i ddatblygu sgiliau, hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb, dymchwel rhwystrau i fynediad a chwarae rôl flaenllaw wrth farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd.

**Cymru Greadigol**

96. Mae fy muddsoddiad yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth y sgrin (Ffilm a Theledu), cerddoriaeth, digidol, gan gynnwys gemau a thechnoleg ymgolli a chyhoeddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau i'r sector darlledu a'r sector newyddiaduriaeth, yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i wella sgiliau ar gyfer y diwydiant.

97. Ers lansio Cymru Greadigol yn 2020, mae 51 o gynyrchiadau wedi cael eu cefnogi (llythyrau cynnig wedi'u llofnodi) ac mae dau gynhyrchiad arall wedi'u hargymell gan Banel (53 mewn 5 mlynedd). Ers mis Ebrill 2024, rwyf wedi buddsoddi mewn 11 o brosiectau cyfalaf sy'n werth cyfanswm o £5.8m o gyllid cyfalaf Cymru Greadigol a rhagwelir y bydd y rhain yn arwain at wariant o fwy na £79.4m yng Nghymru ac yn creu 50 o swyddi newydd. Nod y cynllun yw helpu Cymru i dyfu fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf drwy gefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol, gan greu mwy o wariant a chreu swyddi yng Nghymru.

98. Gan weithio gyda Ffilm Cymru (FfC), mae £2m wedi cael ei ddyrannu i 9 prosiect rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Gorffennaf 2024 a'r bwriad yw ymestyn y peilot â Ffilm Cymru hyd at fis Mawrth 2025 er mwyn gallu craffu'n briodol ar effaith economaidd y cynyrchiadau sydd eisoes wedi'u cyllido ac ystyried y ffordd fwyaf priodol o gynyddu effaith y Credyd Treth Ffilmiau Annibynnol newydd ar gyfer cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru.

99. O ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cynyrchiadau sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru, mae gennyf flaenoriaeth strategol hefyd i fuddsoddi mewn seilwaith stiwdios. Buddsoddwyd yn flaenorol yn Aria Studios yn y gogledd yn 2022 ac yn Great Point Studios yn 2023. Nid yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto ond bydd yn ehangu'r safle hwn i gyfanswm arwynebedd o 257,000 o droedfeddi sgwâr.

100. Gwnaethom lansio cynllun cyllido yn ddiweddar i gefnogi stiwdios y mae'r Ailbrisiad Ardrethi Annomestig yn effeithio arnynt. Daeth **Ailbrisiad Ardrethi Annomestig diweddaraf Llywodraeth y DU** i rym ar 1 Ebrill 2023 gan aseinio ardrethi busnes diwygiedig er mwyn adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad rentu. O ganlyniad i'r newid hwn, mae ardrethi rhai sectorau, gan gynnwys stiwdios, wedi cynyddu'n sylweddol.Mae'r gronfa newydd hon yn golygu bod cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol er mwyn helpu i liniaru effaith y cynnydd hwn.Mae'r dyfarniad grant cyntaf wedi cael ei wneud o dan y cynllun hwn ac mae dyfarniadau pellach yn yr arfaeth.

101. Rwy'n parhau i ddarparu cyllid i gefnogi'r sector cerddoriaeth fasnachol. Mae'r cytundeb diweddar i ddyfarnu £0.4m o gyllid refeniw i 11 o brosiectau Cerddoriaeth arloesol yn 2024-25 yn golygu bod Cymru Greadigol wedi darparu dros £10 miliwn o gymorth i leoliadau a busnesau cerddoriaeth ers ei sefydlu yn 2020.Mae hyn yn ychwanegol at y £0.2m o refeniw a ddarparwyd drwy gymorth strategol i raglenni fel Focus Wales, PPL Momentum a Power up ac i gyflwyno rhaglen Beacons.

102. Rwy'n parhau i roi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau yn y sector yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, drwy'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a'r Gronfa Sgiliau Creadigol. Cafodd ail rownd y Gronfa Sgiliau ei lansio yng ngwanwyn 2024 gan roi gwerth £1.5m o gymorth i 17 o brosiectau eraill, y mae £0.8m ohono wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol yn 2025-26 i'r rhaglen ddwy flynedd a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau mwy o amrywiaeth a chynhwysiant yn y sectorau creadigol yng Nghymru.

103. Y flwyddyn ariannol hon (2024-25), mae 51 o hyfforddeion hyd yma wedi cwblhau lleoliadau â thâl ar gynyrchiadau a gyllidir gan Cymru Greadigol ac mae 69 ar leoliadau ar hyn o bryd.

104. Yn ogystal â hyn, gweithiodd Cymru Greadigol mewn partneriaeth â Sgil Cymru i sicrhau £0.9m o gyllid gan Sefydliad Ffilmiau Prydain (BFI) i ddarparu rhaglen Clwstwr Sgiliau i Gymru. Caiff y cyllid hwn ei ddyrannu'n uniongyrchol gan y BFI i Sgil Cymru er mwyn darparu'r rhaglen dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r rhaglen bartneriaeth hon yn galw am arian cyfatebol o £0.15m gan Cymru Greadigol yn 2024-25 a 2025-26 sy'n golygu bod ymrwymiadau'r gyllideb ym maes sgiliau yn werth dros £1m y flwyddyn.

105. Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan greiddiol o weithgarwch ac mae Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol wedi penderfynu mai dyma fydd ei brif flaenoriaeth. Mae uchelgeisiau Cymru Greadigol i greu sector diwydiannau creadigol mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru yn amlwg yn gyson ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau tegwch i bawb, dileu anghydraddoldeb a dathlu amrywiaeth.

## Y cyfryngau, newyddiaduraeth a darlledu

106. Yn 2024-25, mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi swydd gohebydd y Senedd am ail flwyddyn (£50,000). Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru i ddarparu Cronfa Radio Cymunedol o £0.1m i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol ledled Cymru.

107. Mae cyfanswm o £3,555,350 wedi cael ei ddyfarnu i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2024-25 hyd yma i gefnogi'r sector cyhoeddi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid refeniw blynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg. I liniaru effaith toriadau i'r gyllideb hon, roedd hyn hefyd yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £0.15m yn ystod y flwyddyn ar gyfer Ffeiriau Llyfrau Frankfurt a Llundain.

108. Mae ein gwaith gyda'r sector sgrin a darlledwyr, gan gynnwys drwy ein Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â'r BBC ac S4C, wedi cefnogi nifer o gynyrchiadau yn 2024-25. Ceir rhestr lawn o'r cynyrchiadau a gefnogwyd hyd yma yn Atodiad C.

109. O ystyried pwysigrwydd datblygu sgiliau a thalent i'r diwydiannau creadigol, yn 2024-25 defnyddiwyd £0.5m o'r gyllideb ddarlledu i roi hwb i'r Gronfa Sgiliau Creadigol hefyd. O'r 17 o brosiectau a gefnogwyd drwy'r ail rownd, mae pump ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar wella hygyrchedd yn y sector sgrin.

110. Cytunir ar y gyllideb i gefnogi'r cyfryngau, newyddiaduraeth a darlledu ar gyfer 2025-26, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, fel rhan o'r broses cynllunio busnes flynyddol.

# 7. Cymorth i'r sector cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu

Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi cynyddu cyllideb gyfalaf Cymru Greadigol i £7m. Bydd y dyraniad ychwanegol hwn o £2m yn cefnogi mwy o fuddsoddiad mewn cynyrchiadau, gan roi cyfleoedd i griwiau a hyfforddeion yng Nghymru, gan gynnwys gweithwyr llawrydd, ac yn cefnogi buddsoddiad yn ein rhaglenni cyllido datblygu.

### Pinewood Studios / Seren Studios

111.Mae Pinewood / Seren Studios bellach yn eiddo i Great Point Studios ac yn cael ei redeg fel busnes preifat.Felly, nid oes gennyf wybodaeth am y refeniw diweddaraf, y refeniw amcanestynedig na'r cyfraddau defnyddio.

### Cynhyrchu

112.Ceir rhestr lawn o'r holl brosiectau a gefnogir yn Atodiad C. I grynhoi, ers 2020, mae £28m o gyllid cynhyrchu (sydd bellach hefyd yn cynnwys buddsoddiadau mewn gemau ar ôl i'r meini prawf gael eu diwygio) wedi cael ei ddarparu i 51 o brosiectau, gan gynhyrchu dros £342m yn economi Cymru. Fel rhan o'r cynyrchiadau a gyllidwyd, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi cyfanswm o 364 o leoliadau â thâl.

### Bad Wolf Studios

113.Cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y trefniant benthyca yw £1.064m a dechreuodd yr ad-daliadau yn 2020-21. Mae Bad Wolf wedi ad-dalu £875,174 o'r benthyciad llog ac mae ganddo falans o £188,763. Mae'r manylion ariannol diweddaraf ar gael yn Atodiad Ch.

### Cymru Greadigol

114. Cyllid cynhyrchu yw'r prif fecanwaith o hyd ar gyfer cefnogi gweithgarwch sgrin yng Nghymru a chafodd model cyllid cynhyrchu newydd ei lansio ym mis Mai 2023. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu deunydd o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae hefyd ar gael i gynyrchiadau o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ddefnyddio Cymru fel lleoliad ffilmio. Er mai'r effaith ar economi Cymru drwy wariant ar griw, cyfleusterau, lleoliadau ac ati yw un o'r prif allbynnau o hyd, mae'r gronfa hefyd yn ceisio sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau ar gael ar gynyrchiadau a ariennir.Mae'r gronfa yn blaenoriaethu cynnwys sy'n dangos y gorau o Gymru o ran diwylliant, iaith a daearyddiaeth, rhywbeth a gafodd ei arddangos yn llwyddiannus wrth i bedwar cynhyrchiad a gefnogwyd gan Cymru Greadigol (Pren ar y Bryn/Tree on a Hill, Men-Up, Steeltown Murders, a Wolf) dderbyn y nifer mwyaf o enwebiadau Bafta Cymru yn 2024. Llwyddodd pob un ohonynt i gynnig portread realistig o Gymru i gynulleidfaoedd rhwydwaith. Mae'r Gronfa hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sector sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol ar gyfer swyddi medrus hirdymor ac un sy'n gofalu am lesiant staff presennol.

115. Hefyd, ym mis Gorffennaf 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb â Ffilm Cymru i weinyddu'r cyllid grant ar gyfer ffilmiau hir ar ein rhan. Hyd yma, mae £2m wedi cael ei ddyrannu i naw prosiect fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd ac mae gwaith yn parhau â thîm a bwrdd prosiect Ffilm Cymru ar y prosiectau hyn.

## Ffilm Cymru

116. Fel rhan o'r rhaglen ddwy flynedd gychwynnol, mae naw ffilm hir wedi derbyn cyllid cynhyrchu gwerth cyfanswm o £2m a disgwylir y bydd hyn yn rhoi hwb o fwy na £14.5m i economi Cymru.

117. Cafodd y cynhyrchiad cyntaf a gyllidwyd, sef Timestalker, ei ddangos am y tro cyntaf erioed yn SXSW yn Austin, Texas ym mis Mawrth 2024 a chafodd ei ganmol gan adolygwyr a chynulleidfaoedd. Cafodd y ffilm ei dosbarthu wedi hynny i sinemâu yn y DU ac Iwerddon gan Vertigo ym mis Hydref a Hanway Films sy'n gyfrifol am werthiannau rhyngwladol. Cafodd Brides, sef ffilm a gynhyrchwyd ar y cyd gan ieie Productions yng Nghaerdydd, ei dewis hefyd fel un o ffilmiau UK Great8 Showcase yn Cannes ym mis Mai 2024 ac edrychir ymlaen yn fawr at weld y ffilm yn cael ei sgrinio mewn amrywiaeth o wyliau ar ddechrau 2025. Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024, cafodd The Man in My Basement, a gafodd ei gynhyrchu gan John Giwa-Amu o Gaerdydd sy'n gweithio i Good Gate Media, ei ffilmio mewn amrywiaeth o leoliadau yn Ne Cymru. Mae'r actorion Corey Hawkins a Willem Dafoe, sydd wedi ennill Oscar, i'w gweld yn y ffilm honno. Mae'r ffilm hon ar y cam ôl-gynhyrchu ar hyn o bryd a'r bwriad yw y bydd yn barod i'w sgrinio mewn

gwyliau yn 2025. Mae cynyrchiadau eraill sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys Mr Burton, sef ffilm am fywyd Richard Burton sy'n cael ei chynhyrchu gan Severn Screen a'i chyfarwyddo gan y cyfarwyddwr o Gymru, Marc Evans, a Madfabulous, sy'n seiliedig ar fywyd lliwgar Henry Paget, sef 5ed Marcwis Môn.

118.Arweiniodd streic actorion SAG-AFTRA yn 2023 at oedi o safbwynt y brif ffotograffiaeth ar gyfer rhai o'r cynyrchiadau a gyllidwyd. Bu'n rhaid dod â rhai cynyrchiadau i ben hefyd, a chafodd y cyllid ei ddyrannu i brosiectau eraill. O ganlyniad i'r oedi a gafodd ei achosi gan y streiciau, ni fu'n bosibl adolygu'r rhaglen ar ddiwedd y peilot dwy flynedd (mis Ebrill 2024) gan nad oedd digon o'r cynyrchiadau wedi gwneud digon o gynnydd i roi darlun cytbwys o'u heffaith economaidd a'u llwyddiant o fewn y diwydiant. Yn ogystal, lansiodd Llywodraeth y DU Gredyd Treth Ffilmiau Annibynnol newydd y DU (IFTC) ym mis Ebrill 2024 (a gafodd ei gymeradwyo wedi hynny gan Lywodraeth newydd y DU ym mis Hydref 2024) a arweiniodd at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau ym maes ffilm yng Nghymru, gan gynnwys ffilmiau a gynhyrchir yng Nghymru a chyfleoedd mewnfuddsoddi. Fel y cyfryw, y bwriad yw ymestyn y peilot â Ffilm Cymru hyd at fis Mawrth 2025 fel y gellir craffu'n briodol ar effaith economaidd y cynyrchiadau a gyllidwyd eisoes ac ystyried y ffordd fwyaf priodol o gynyddu effaith yr IFTC newydd ar y sector cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru. Y bwriad yw rhoi cytundeb newydd ar waith ar gyfer 2025-26.

# 8. Chwaraeon

Yn unol â dyraniadau refeniw i gyrff hyd braich eraill, rwyf wedi cynyddu cyllideb refeniw Chwaraeon Cymru 3%. Rwyf hefyd wedi cynyddu cyllideb gyfalaf Chwaraeon Cymru £2m, o £8m i £10m.

## Chwaraeon Cymru

119. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymgysylltu â chwaraeon yn bwysig i Gymru fel cenedl. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon, rhagoriaeth ym maes chwaraeon a gwylio chwaraeon yn fuddiol iawn i iechyd, yn uno cymunedau, yn cyfrannu at ein hymdeimlad o le yn y byd ac yn hollbwysig i'n heconomi.

120. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam ym mis Medi 2024 yn amcangyfrif bod chwaraeon yng Nghymru yn helpu i gyflwyno £1.9bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros i economi Cymru, gan sicrhau 38,345 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Wrth edrych ar yr effaith ehangach, gan gynnwys yr effaith anuniongyrchol, cyfrifir mai £2.9bn a 58,997 o swyddi yw'r ffigurau hyn. Yn ogystal â rhoi hwb i'r economi, mae chwaraeon yn adnodd ataliol effeithiol ym maes iechyd. Nododd astudiaeth arall gan Brifysgol Sheffield Hallam ar ddiwedd 2023 fod chwaraeon yn cyflwyno buddiannau iechyd gwerth £621m drwy atal dros 113,000 o achosion o salwch. Amcangyfrifodd fod cyfanswm yr adenillion cymdeithasol ar y buddsoddiad mewn chwaraeon yn cyfateb i £5.98bn y flwyddyn yng Nghymru, sy'n golygu bod y cyhoedd a'r Llywodraeth yn adennill £4.44 am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon.

121. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod o greu Cymru iachach, a chymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl. Gan gydnabod pŵer ataliol chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, byddaf yn atgyfnerthu ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddefnyddio cyllid cyfalaf er mwyn buddsoddi mewn cyfleusterau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd mwy difreintiedig. Drwy hynny, byddwn yn hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o bob math. Caiff £2m arall, sy'n gwneud buddsoddiad o £10m i gyd, ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon drwy Chwaraeon Cymru yn y gyllideb hon.

122. Caiff y £10m rwy'n ei ddyrannu i Chwaraeon Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon presennol a newydd, gan gynnwys Caeau Porfa Artiffisial, i greu seilwaith chwaraeon modern sy'n gynaliadwy o

safbwynt ariannol ac amgylcheddol. Bydd y buddsoddiad yn diogelu cyfleusterau lleol, yn datblygu asedau newydd a gwell i gymunedau lleol, ac yn lleihau'r angen i deuluoedd ac unigolion deithio'n bell yn y car i fanteisio ar gyfleoedd chwaraeon.

## Atal

123.Cynhaliodd Chwaraeon Cymru ddigwyddiad yn ddiweddar yn y Senedd lle clywodd Aelodau'r Senedd a chynrychiolwyr o'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol am effaith a rôl chwaraeon fel rhan o'r agenda iechyd ataliol. Ysgogodd y digwyddiad drafodaethau pellach â chyrff llywodraethu cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol a sefydliadau iechyd allweddol yn y trydydd sector ynghylch sut y gellir defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gefnogi canlyniadau iechyd.

124.Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i ddeall sut y gallwn sicrhau bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael mwy o effaith ar iechyd a llesiant ein cenedl yn y dyfodol.

## Cyllid adrannol arall

125.Er bod gan Weinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet gyfrifoldebau portffolio penodol ac ymrwymiadau penodol o fewn y Rhaglen Lywodraethu, mae pob un ohonom yn gyfrifol am wella bywydau pobl Cymru, gan gynnwys eu hiechyd a'u llesiant, ac am ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

126.Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i gynyddu gwerth y buddsoddiadau a wnawn ar draws y llywodraeth, er mwyn hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i bawb fwynhau buddiannau ffordd o fyw egnïol.  Byddwn yn adeiladu ar gydberthnasau presennol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio er mwyn sicrhau bod buddiannau ychwanegol cymryd rhan mewn chwaraeon yn cael eu cydnabod yn ehangach, a bod gan gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol a phartneriaid cenedlaethol eraill fynediad i ffrydiau cyllido eraill i gefnogi eu hymdrechion i gael effaith gadarnhaol ar yr agenda gweithgarwch corfforol ehangach.

127.Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu ffrydiau cyllido penodol sy'n anelu at atal problemau iechyd drwy weithgarwch corfforol, gan gynnwys cyllid drwy ein strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach, a gyhoeddwyd yn 2019.Cynllun 10 mlynedd yw'r strategaeth i flaenoriaethu ymyriadau cynnar a newid mewn ymddygiad ar bob lefel er mwyn cefnogi dulliau ataliol i newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'n ymrwymiad allweddol tuag at ddull gweithredu trawslywodraethol er mwyn lleihau gordewdra yng Nghymru ym mhob rhan o'r boblogaeth ac fe'i datblygwyd ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

128.Ochr yn ochr â hyn, ceir cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd sy'n rhychwantu oes y strategaeth. Mae'r sector chwaraeon a hamdden wedi chwarae rôl allweddol

o ran cyflawni amcanion cynlluniau cyflawni blaenorol Pwysau Iach Cymru Iach, drwy gynlluniau fel FitFans a Chynllun Hamdden Actif 60+.

129.Bydd y cynllun cyflawni nesaf yn parhau i gefnogi rhaglenni ac ymyriadau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Bydd y cynllun yn rhoi cyfle arall i'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol gymryd rhan mewn dulliau ataliol hollbwysig i leihau gordewdra a sefydlu arferion ffordd o fyw iachach.

130.Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r rhaglen Ysgolion Bro hefyd yn cefnogi'r ymdrech i greu cyfleusterau modern a hygyrch ar gyfer diwylliant a chwaraeon a buddsoddwyd yn sylweddol yn y rhain dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i gefnogi'r buddsoddiad yng nghyfleusterau chwaraeon ysgolion drwy ein cyllideb gyfalaf a weinyddir gan Chwaraeon Cymru, er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc mewn cymunedau ledled Cymru fynediad i leoedd modern ac ysgogol lle gallant gymryd rhan mewn chwaraeon a datblygu eu doniau chwaraeon.

# 9. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

## Gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad i "fwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu".

### Hanes Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

131. Nod yr ymrwymiadau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac ymrwymiadau penodol cysylltiedig a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar ehangu mynediad, cyfranogiad, ac ymgysylltiad pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â meithrin capasiti a gallu ein sectorau diwylliannol a threftadaeth i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systematig. Rydym hefyd wedi ymestyn ein gwaith meithrin capasiti a gallu i'n sefydliadau llawr gwlad, gan eu helpu i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau gwneud cais am grantiau fel y gallant fanteisio ar gyllid grant Diwylliant Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyllid i greu, datblygu a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, sy'n adlewyrchu tirlun diwylliannol amrywiol ein cymunedau.  Drwy gyllid grant, rydym wedi cefnogi mwy nag 80 o sefydliadau, gan ddyrannu ychydig dros £5m o gyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-25 i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon ar lawr gwlad, yn ogystal â rhai rhanbarthol, lleol a chenedlaethol.

132. Mae pob prosiect sy'n cael cyllid yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu, gan ddangos ymrwymiad i roi profiadau bywyd wrth wraidd y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau / polisïau. Gwyddom nad mater amrywiaeth a chynhwysiant yw cydgynhyrchu â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; mae'n fater o reidrwydd strategol sy'n arwain at wasanaethau sy'n fwy cyfartal ac yn fwy priodol o safbwynt diwylliannol lle mae ein treftadaeth yn cynnig darlun mwy cytbwys a realistig o'n gorffennol.

133. Mae camau mawr wedi'u cymryd yn ein sectorau diwylliant a threftadaeth i gyflawni yn erbyn nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac ymrwymiadau cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu. Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ddogfen ar y cyd, sef **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-25 | Cyngor Celfyddydau Cymru**, a ategir gan waith i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol a brofir gan bobl,

grwpiau a chymunedau, yn enwedig y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, o safbwynt cael mynediad i'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Cyhoeddodd Cadw hefyd ganllawiau i gyrff cyhoeddus ar goffáu cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn yr archwiliad o henebion ac enwau strydoedd a nododd nifer o enghreifftiau o goffáu mewn mannau cyhoeddus y gellid ystyried eu bod yn gynhennus.

## Cronfa Ymchwil a Datblygu'r Diwydiant Creadigol

134.Mae Cymru Greadigol wedi hwyluso nifer o fentrau cyllido Ymchwil a Datblygu ers ei sefydlu. Cafodd Ymchwil a Datblygu ei gynnwys fel maes allweddol â blaenoriaeth fel rhan o'r rhaglen cyllido datblygu. Mae cyllid Datblygu 2021-22 gwerth £1.1m wedi'i ddyrannu'n llawn i'w ddosbarthu yn ystod 2021-22 a 22-23 i 51 o gwmnïau creadigol. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd ail rownd o gronfeydd datblygu ei lansio a 35 o brosiectau gyda chyfanswm o fwy nag £0.980 ar gyfer gwariant yn 2023-24 a 2024-25. Nod y Cyllid Datblygu Teledu a Digidol yw rhoi cymorth penodol er mwyn helpu i dyfu cwmnïau cynhenid yn y byd teledu a digidol, gan helpu cwmnïau i ddatblygu cynhyrchion ac eiddo deallusol newydd ac ennill busnes newydd.

135.Ariennir rhaglen Media Cymru gwerth £50m drwy £22m o Gronfa flaenllaw ‘Strength in Places’ Ymchwil ac Arloesi yn y DU, £3m gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, £0.5m gan Lywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, ac arian cyfatebol gwerth £23m gan y diwydiant a phrifysgolion partner. Mae rhaglen Media Cymru, a gefnogir gan Cymru Greadigol, yn cynnwys pecyn gwaith i ddarparu cronfa Ymchwil a Datblygu Cymru gyfan ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Caiff hyn ei gyflawni rhwng 2022 a 2026 ac mae'n darparu ystod o brosiectau cyllido Ymchwil a Datblygu ledled Cymru.

## Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol

136.Cafodd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol ei sefydlu yn 2022 a chaiff ei gefnogi gan y **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth** gyda chyllid parhaus o gyllideb y Cwricwlwm ac Asesu yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg. Yn 2024-25, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn buddsoddi £4 miliwn i gyflawni'r ymrwymiad hwn a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Rydym am weld pob plentyn a pherson ifanc rhwng 3 ac 16 oed yn elwa ar gyfleoedd i chwarae offeryn cerdd, canu, a chymryd rhan mewn gweithgareddau creu cerddoriaeth mewn ysgolion a chymunedau.

137.Mae'r Gwasanaeth, gyda'i gorff arweiniol, sef CLILC, yn parhau i gefnogi addysg cerddoriaeth mewn ysgolion drwy, er enghraifft, y rhaglen 'Profiadau Cyntaf' mewn ysgolion cynradd a 'Llwybrau Cerddoriaeth' mewn ysgolion uwchradd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ffocws pwysig ar ymgysylltu â dysgwyr o deuluoedd incwm isel a'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae rhaglen 'Profiadau Cyntaf' eisoes wedi ymgysylltu â mwy na 75 y cant o ysgolion cynradd yng Nghymru. Caiff gwerthusiad manwl o flynyddoedd cyntaf y Gwasanaeth ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2025.

138.Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi rhaglen cymorth grant newydd mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn rhoi cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau, o 1 Ebrill 2025. Mae'r dull strategol newydd hwn o ddarparu cymorth cwricwlwm a ariennir gan grant yn rhoi blaenoriaeth i'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol o safbwynt blaengyllido.

139.Mae swyddogion addysg wrthi'n gweithio gyda CLILC i ddatblygu opsiynau o dan y rhaglen cymorth grant newydd ar gyfer dyfarniad grant newydd am gyfnod o dair blwyddyn ariannol lawn. Caiff mwy o wybodaeth am y grantiau penodol a'r dyraniadau cyllid a ddyfernir o dan y rhaglen newydd, gan gynnwys i'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, ei chyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Ebrill 2025.

## Buddsoddi mewn Theatrau, gan gynnwys Theatr Clwyd

140.Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £23.5m i helpu i ailddatblygu Theatr Clwys dros y tair blynedd diwethaf rhwng 2022-25.

141.Mae'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru i Theatr Clwyd yn fuddsoddiad sylweddol yn y celfyddydau yng Nghymru ac yn gydnabyddiaeth o'r buddiannau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sylweddol y mae Theatr Clwyd yn eu cyflwyno i Gymru, yn enwedig i gymunedau yn y gogledd-ddwyrain.

142.Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig o hyd i gyflawni prosiect cyfalaf Theatr Clwyd, sy'n un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.

143.Yn 2025-26, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud dyraniad ar gyfer menter Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn Sector y Celfyddydau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru drwy'r gyllideb Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol a fydd yn golygu y bydd modd rhoi'r cymorth cyfalaf angenrheidiol i sefydliadau celfyddydol, gan gynnwys theatrau.

## Amgueddfa Bêl-droed

144. Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant o £5.458m ar gyfer Amgueddfa Bêl-droed Cymru, i'w chyllido o'r cam datblygu cynnwys ac adeiladu hyd nes y caiff ei gweithredu a'i hagor (ym mis Mawrth 2026, yn ôl y disgwyl). Y llynedd, llwyddodd y tîm prosiect yn Amgueddfa Wrecsam i gael cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sydd, ar y cyd â chyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Sefydliad Wolfson a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, wedi sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r amgueddfa a'r gwaith cysylltiedig i ailddatblygu orielau Amgueddfa Wrecsam wedi'u hariannu'n llawn (£11.8m). Cwblhaodd y prosiect adolygiad sicrwydd Porth 3 fel rhan o'r Model Busnes Pum Achos, gyda gradd oren-gwyrdd a chafodd yr Achos Busnes Llawn ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2024.

145. Cafodd adeilad Amgueddfa Wrecsam ei gau i'r cyhoedd a'i drosglwyddo i'r contractwyr ym mis Gorffennaf 2024. Bydd y gwaith datblygu, adeiladu a ffitio yn parhau nes i'r amgueddfa agor yn 2026. Er y bydd prif grant diwylliant Llywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, bydd cyllid ychwanegol ar gael yn 2025-26 i sicrhau parhad swyddi allweddol y prosiect, sef y Curadur Pêl-droed, Swyddogion Ymgysylltu, Rheolwr y Prosiect.

146. Bydd gwaith casglu ac ymgysylltu yn parhau nes i'r amgueddfa agor, gan godi proffil y prosiect, a sicrhau bod y gwrthrychau a'r straeon sydd eu hangen ar gyfer yr amgueddfa yn dod i law, er mwyn adrodd straeon amrywiol y gêm, a sicrhau bod straeon llawr gwlad a rhyngwladol, gan ddilynwyr a chwaraewyr, yn cael eu cynrychioli.

## Celf - Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol

147. Mae datblygu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'n cynnwys tair elfen wahanol:

- Rhwydwaith gwasgaredig o naw oriel ledled Cymru sy'n rhoi mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol, gan ddod â chelf gyfoes yn agosach at gymunedau.
- Orielau lletya sy'n lletya'r casgliad cenedlaethol o gelf Gymreig ar hyn o bryd h.y., Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
- Y llwyfan digidol ar-lein, Celf ar y Cyd.

148. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr oriel angori bellach wedi cael eu terfynu a chaiff y cyllid ei ddefnyddio i dalu am y gwaith brys sydd angen ei wneud i amddiffyn a diogelu trysorau cenedlaethol Cymru, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth (cyhoeddwyd hyn ym mis Gorffennaf 2024).

149. Mae buddsoddiad yn cael ei wneud o hyd yn Celf, yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, yn y naw safle ledled Cymru.Caiff y gwaith hwn ei arwain ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â'r naw oriel.

150. Bydd y model daearyddol-wasgaredig yn sicrhau bod celf gyfoes a'r casgliad cenedlaethol yn fwy hygyrch i gymunedau ledled Cymru, gan ddod â chelf yn agosach i bobl Cymru, mewn ffordd llawer mwy cyfartal.

151. Rhwng 2017 a 2023, gwariwyd cyfanswm o £1.76m ar elfennau amrywiol y rhaglen, yr oedd £1.36m ohono yn wariant cyfalaf. Mae'r dyfarniad grant newydd yn darparu £6.3m arall i gefnogi'r prosiect nes iddo gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2025.  Mae'r tri phartner arweiniol yn gweithio gyda'r naw oriel i ddatblygu'r gofynion o fis Ebrill 2025 ymlaen, wrth i'r prosiect symud i'w gam gweithredol.

## Y cyfryngau a newyddiaduraeth

152. Cafodd yr ymrwymiad i ystyried creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru ei gyflawni ym mis Mawrth 2024, pan ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru.  Rwy'n ystyried y camau nesaf ar ôl i ymateb Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi a byddaf yn darparu diweddariad maes o law.

153. Mae Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru wedi chwarae rôl bwysig wrth helpu i nodi opsiynau er mwyn gwella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru, yng nghyd-destun yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnwys newyddiadurol a gyllidir gan lywodraethau, o ganlyniad i faterion sy'n ymwneud â didueddrwydd ac annibyniaeth olygyddol.

## Darlledu a chyfathrebu

154. Yn 2024-25, mae Cymru Greadigol wedi gweithio gyda rhanddeiliaid darlledu gan gynnwys Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ofcom, darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, Teledwyr Annibynnol Cymru a Pact i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu rheoliadau, polisïau ac ymyriadau perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys parhau i ddadlau'r achos dros rôl gadarn wrth benodi i Fwrdd S4C. Y bwriad yw y bydd trafodaethau cadarnhaol yn parhau ar y mater hwn â Llywodraeth newydd y DU.

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26* | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
| | (A) | (B) | (C = A + B) | (D) | (E = C + D) |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Bron yn Arian Parod | 111,816 | 1,071 | 112,887 | 4,999 | 117,886 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 10,162 | 0 | 10,162 | 2,028 | 12,190 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **121,978** | **1,071** | **123,049** | **7,027** | **130,076** |
| Cyfalaf | 55,366 | 0 | 55,366 | 18,421 | 73,787 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | -1,231 | 1,231 | 0 | -500 | -500 |
| **Cyfanswm y Cyfalaf** | **54,135** | **1,231** | **55,366** | **17,921** | **73,287** |
| **Cyfanswm** | **176,113** | **2,302** | **178,415** | **24,948** | **203,363** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20,000** | **0** | **20,000** | **4,000** | **24,000** |

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwy** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26*** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26** | **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | **Cyllideb Ddrafft 2025-26** |
| | **(A)** | **(B)** | **(C = A + B)** | **(D)** | **(E = C + D)** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 30,429 | 64 | 30,493 | 1,095 | 31,588 |
| Amgueddfa Cymru | 25,504 | 276 | 25,780 | 920 | 26,700 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 11,093 | 129 | 11,222 | 400 | 11,622 |
| Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon | 6,668 | 12 | 6,680 | 1,200 | 7,880 |
| Darlledu a'r Cyfryngau | 1,100 | 0 | 1,100 | -1,100 | 0 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm y Gefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **74,794** | **481** | **75,275** | **2,515** | **77,790** |
| Cadw | 8,547 | 468 | 9,015 | 430 | 9,445 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 525 | 0 | 525 | 19 | 544 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,656 | 57 | 1,713 | 60 | 1,773 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm y Gefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **10,728** | **525** | **11,253** | **509** | **11,762** |
| Chwaraeon Cymru | 20,978 | 65 | 21,043 | 755 | 21,798 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **20,978** | **65** | **21,043** | **755** | **21,798** |
| Cymru Greadigol | 5,316 | 0 | 5,316 | 1,220 | 6,536 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **5,316** | **0** | **5,316** | **1,220** | **6,536** |
| **Cyfanswm Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | **111,816** | **1,071** | **112,887** | **4,999** | **117,886** |

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26* | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
| | (A) | (B) | (C = A + B) | (D) | (E = C + D) |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyngor Celfyddydau Cymru - Heb fod yn arian parod | 119 | 0 | 119 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru - Heb fod yn arian parod | 2,400 | 0 | 2,400 | 900 | 3,300 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Heb fod yn arian parod | 1,250 | 0 | 1,250 | 1,118 | 2,368 |
| **Cyfanswm y Gefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **3,769** | **0** | **3,769** | **2,018** | **5,787** |
| Cadw - Heb fod yn arian parod | 5,480 | 0 | 5,480 | 0 | 5,480 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Heb fod yn arian parod | 134 | 0 | 134 | 0 | 134 |
| **Cyfanswm y Gefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **5,614** | **0** | **5,614** | **0** | **5,614** |
| Chwaraeon Cymru - Heb fod yn arian parod | 779 | 0 | 779 | 0 | 779 |
| **Cyfanswm Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **779** | **0** | **779** | **0** | **779** |
| Cymru Greadigol | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **0** | **0** | **0** | **10** | **10** |
| **Cyfanswm Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | **10,162** | **0** | **10,162** | **2,028** | **12,190** |

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26*** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26** | **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | **Cyllideb Ddrafft 2025-26** |
| | **(A)** | **(B)** | **(C = A + B)** | **(D)** | **(E = C + D)** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon | 24,700 | 0 | 24,700 | 8,100 | 32,800 |
| **Cefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **32,100** | **0** | **32,100** | **8,100** | **40,200** |
| Cadw | 10,000 | 0 | 10,000 | 6,321 | 16,321 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 200 | 0 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 50 | 0 | 50 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm y Gefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **10,250** | **0** | **10,250** | **6,321** | **16,571** |
| Chwaraeon Cymru | 8,016 | 0 | 8,016 | 2,000 | 10,016 |
| **Cyfanswm Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **8,016** | **0** | **8,016** | **2,000** | **10,016** |
| Cymru Greadigol | 5,000 | 0 | 5,000 | 2,000 | 7,000 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **5,000** | **0** | **5,000** | **2,000** | **7,000** |
| **Cyfanswm Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | **55,366** | **0** | **55,366** | **18,421** | **73,787** |

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26* | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
| | (A) | (B) | (C = A + B) | (D) | (E = C + D) |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | -1,231 | 1,231 | 0 | -500 | -500 |
| **Cyfanswm Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **-1,231** | **1,231** | **0** | **-500** | **-500** |
| **Cyfanswm Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | **-1,231** | **1,231** | **0** | **-500** | **-500** |

| Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26*** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26** | **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | **Cyllideb Ddrafft 2025-26** |
| | **(A)** | **(B)** | **(C = A + B)** | **(D)** | **(E = C + D)** |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Amgueddfa Cymru – Darpariaeth Bensiwn – Gwariant a | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 15,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Darpariaeth Bensiwn – | 9,000 | 0 | 9,000 | 0 | 9,000 |
| **Cyfanswm Pensiynau Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd** | **15,000** | **0** | **15,000** | **0** | **15,000** |
| Darpariaeth Cyngor Celfyddydau Cymru - Gwariant a Reolir | 0 | 0 | 0 | 3000 | 3,000 |
| **Cefnogaeth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **0** | **0** | **0** | **3,000** | **3,000** |
| Darpariaethau Cadw - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 0 | 0 | 0 | 1000 | 1,000 |
| **Cyfanswm y Gefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **0** | **0** | **0** | **1,000** | **1,000** |
| Chwaraeon Cymru – Darpariaeth Bensiwn – Gwariant a | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cyfanswm Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **5,000** | **0** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| **Cyfanswm Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | **20,000** | **0** | **20,000** | **4,000** | **24,000** |

Atodiad B
Cyllideb Ddrafft 2024-25 Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Esboniadau o symudiadau ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi esboniad o:

- newidiadau a wnaed rhwng Cyllideb Derfynol 2024-25 (a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024) a Chyllideb Ddrafft 2025-26. Mae'r rhain yn cynnwys dau fath o newidiadau:

    1. addasiadau i'r llinell sylfaen a wnaed i Gyllideb Derfynol 2024-25 (a ailddatganwyd). Gellir priodoli'r rhain yn bennaf i ddyraniadau a wnaed mewn perthynas â dyfarniad cyflog 2024-25 ac i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â'r newid yn y gyfradd ddisgowntio SCAPE sy'n effeithio ar bensiynau'r sector cyhoeddus heb eu hariannu. Mae addasiad i'r llinell sylfaen hefyd wedi cael ei wneud i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tlodi Tanwydd er mwyn trosglwyddo £1.255m i Brif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol. Mae hwn yn gywiriad i gyllidebau yn sgil y newidiadau mewn portffolios a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn.

    2. **Dyraniadau a throsglwyddiadau'r Gyllideb Ddrafft;** nodir y disgrifiadau ohonynt yn y tablau isod.

**Bron yn Arian Parod**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5800: Cyngor Celfyddydau Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb (**£1.095m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5540: Amgueddfa Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb **(£0.920m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5660: Llyfrgell Genedlaethol Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb **(£0.4m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **6170: Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£1.2m**<br>**£1m** i gymryd camau gweithredu o dan y blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.<br>Cynnydd o 3% yn y gyllideb **(£0.2m**) |

Atodiad B
Cyllideb Ddrafft 2024-25 Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Esboniadau o symudiadau ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb

| | |
|---|---|

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **1070: Darlledu a'r Cyfryngau** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi gostwng -£1.1m o ganlyniad i drosglwyddo'r cyllid o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darlledu a'r Cyfryngau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymru Greadigol – er mwyn symleiddio gweithgarwch o dan un gyllideb. |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2700: Cadw** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 5% yn y gyllideb **(£0.430m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2710: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb **(£0.019m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **6200: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb **(£0.06m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5900: Chwaraeon Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb **(£0.755m**) |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **3762: Cymru Greadigol** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£1.220m**<br>Trosglwyddiad o £1.1m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darlledu a'r Cyfryngau i symleiddio gweithgarwch.<br>Cynnydd o 3.6% yn y gyllideb (**£0.120m**) i gyllideb llinell sylfaen y **Cyngor Llyfrau**. |

Atodiad B
Cyllideb Ddrafft 2024-25 Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Esboniadau o symudiadau ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb

**Heb Fod yn Arian Parod**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5800: Cyngor Celfyddydau Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5540: Amgueddfa Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£0.9m** i dalu am ofynion ychwanegol nad ydynt yn arian parod. |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5660: Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£1.118m** i dalu am ofynion ychwanegol nad ydynt yn arian parod. |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2700: Cadw - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **6200: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|

Atodiad B
Cyllideb Ddrafft 2024-25 Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Esboniadau o symudiadau ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb

| | |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5900: Chwaraeon Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5900: Chwaraeon Cymru - Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **3762: Cymru Greadigol Heb fod yn arian parod** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£0.010m** i dalu am ofynion ychwanegol nad ydynt yn arian parod. |

**Cyfalaf**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5800: Cyngor Celfyddydau Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5540: Amgueddfa Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **5660: Llyfrgell Genedlaethol Cymru** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **6170: Cefnogaeth i Ddiwylliant Lleol a Chwaraeon** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£8.1m**<br>Bydd y cyllid ychwanegol yn cynnwys datblygiadau mawr yn y gogledd, gan gynnwys Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn Wrecsam ac Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, a ledled y wlad drwy Celf a'n Grantiau Trawsnewid i |

| | |
|---|---|
| | amgueddfeydd, llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau lleol.<br>Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2700: Cadw |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£6.321m**<br>Mae'r cyllid yn cynnwys cefnogaeth i ail gam datblygu Castell Caerffili. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hefyd yn helpu i gadw ystad hanesyddol ehangach Cadw a'r rhaglen grant ar gyfer safleoedd hanesyddol ehangach sydd mewn perygl. Mae'r buddsoddiad hefyd yn cefnogi'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r Strategaeth Dwristiaeth Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020 i 2025. |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2710: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 6200: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Dim newid |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 5900: Chwaraeon Cymru |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£2m**<br>Mae'r cyllid yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon drwy Chwaraeon Cymru yn y gyllideb hon. |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 3762: Cymru Greadigol |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Mae'r gyllideb wedi cynyddu **£2m**<br>Cyllid ychwanegol ar gyfer cynyrchiadau, cerddoriaeth a gemau, ynghyd â chronfa i helpu stiwdios i ddod yn fwy cynaliadwy a hygyrch. |

Atodiad B
Cyllideb Ddrafft 2024-25 Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Esboniadau o symudiadau ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb

**Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **6013: Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon** |
|---|---|
| **Newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26** | Ad-daliadau arfaethedig o **-£0.731m** sy'n ymwneud â Chyfalaf Trafodiadau Ariannol. |

## Atodiad C – BUDDSODDIAD CRONFA SGRIN CYMRU (ar 27 Tachwedd 2024)

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2012-13 | Tonto Films and Television Ltd | Da Vinci’s Demons Cyfres 1 | 0.495 | 3.823 |
| 2012-13 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 1 | 0.250 | 4.026 |
| 2012-13 | Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies) | Boj & Buddies | 0.200 | 1.003 |
| 2012-13 | Fiction Factory (Hinterland Films Ltd) | Hinterland Cyfres 1 | 0.215 | 3.691 |
| 2012-13 | Tonto Films and Television Ltd (DVDS2) | Da Vinci’s Demons Cyfres 2* | 0.990 | 15.000 |
| 2013-14 | Avanti Media Group | Wonder World | 0.127 | 0.763 |
| 2013-14 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 2 | 0.250 | 4.026 |
| 2013-14 | Lime Pictures Limited | Rocket’s Island* | 0.143 | 0.966 |
| 2013-14 | Mirror Productions | Petroleum Spirit | 0.051 | 0.358 |
| 2013-14 | Modern Television | A Poet In New York | 0.053 | 0.855 |
| 2013-14 | Adastra Creative and Shrinking Cap Productions Ltd | Grandpa in my pocket | 0.129 | 1.612 |
| 2013-14 | Three Stones Media (The Rastamouse company) | Rastamouse Cyfres 4 | 0.145 | 0.885 |
| 2013-14 | Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd) | The Drake Equation* | 0.740 | 5.208 |
| 2013-14 | Lupus Films | Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest | 0.550 | 3.034 |
| 2013-14 | Green Bay Media Ltd | Castle Builders | 0.045 | 0.320 |
| 2013-14 | YJB Films (From a Jack to a King Ltd) | From a Jack to a King | 0.100 | 1.229 |
| 2013-14 | Hartswood Television Ltd | Lady Chatterleys Lover | 0.125 | 0.813 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2014-15 | Lime Pictures Limited | Rocket's Island Cyfres 4 | 0.070 | 0.700 |
| 2014-15 | Gritty Realism Productions Ltd | Heart of Darkness | 0.150 | 1.794 |
| 2014-15 | TCFTV UK Productions | The Bastard Executioner | 2.500 | 10.000 |
| 2014-15 | Cwmni Da Cyf | Country Fair | 0.125 | 1.019 |
| 2014-15 | Animortal Studio (Trampires Ltd) | Trampires | 0.674 | 6.738 |
| 2014-15 | Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd) | Decline and Fall | 0.100 | 1.800 |
| 2014-15 | RF Movie Productions Ltd | Robin Friday - The Movie* | 0.200 | 1.950 |
| 2014-15 | Touchpaper Television Ltd | Coming up | 0.080 | 0.809 |
| 2014-15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd) | Hinterland 2 | 0.304 | 5.300 |
| 2014-15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd) | Hinterland 3 | 0.250 | 4.210 |
| 2015-16 | Bad Wolf Ltd | Bad Wolf Productions | 9.000 | 133.000 |
| 2015-16 | Hartswood Films (Sherlock TV Ltd) | Sherlock Cyfres 4 | 0.240 | 2.409 |
| 2015-16 | Heel Stone Pictures Ltd | Crossing the Border | 0.202 | 2.519 |
| 2015-16 | Ninth Floor UK Productions Limited | Will Cyfres 1 | 1.500 | 18.761 |
| 2015-16 | Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14) | The Collection | 0.600 | 5.500 |
| 2015-16 | Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd) | Don't Knock Twice | 0.075 | 0.630 |
| 2015-16 | Vertigo Television Ltd | Britannia VFX | 1.100 | 11.149 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2016-17 | Beakus Ltd | Toggle Top | 0.076 | 0.944 |
| 2016-17 | Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd) | Luo Bao Bai | 0.225 | 3.183 |
| 2016-17 | Riverstone Pictures (Showdogs Ltd) | Showdogs | 0.362 | 4.737 |
| 2016-17 | Vox Pictures (Keeping Faith Ltd) | Keeping Faith | 0.328 | 4.250 |
| 2016-17 | Green Bay Media | Mountains and Life | 0.030 | 0.540 |
| 2016-17 | New Pictures (Requiem Productions Ltd) | Requiem | 0.400 | 5.016 |
| 2016-17 | Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd) | Apostle | 0.385 | 5.767 |
| 2017-18 | World Productions (BTK 2016 Ltd) | Born to Kill | 0.200 | 2.500 |
| 2017-18 | The Forge Entertainment Ltd | Kiri | 0.200 | 2.382 |
| 2017-18 | Coracle Pictures Limited (Denmark) | Denmark | 0.085 | 1.383 |
| 2017-18 | Rondo Media Cyf | The Wall | 0.045 | 0.363 |
| 2017-18 | Touchpaper Television Ltd | 4Stories* | 0.040 | 0.631 |
| 2017-18 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud | 0.090 | 0.906 |
| 2018-19 | Eleven Film Ltd | Schooled | 0.485 | 3.879 |
| 2018-19 | Boom Cymru | 15 days | 0.089 | 1.074 |
| 2018-19 | Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd and Popara Films (DH) Limited | Dream Horse | 0.350 | 4.384 |
| 2018-19 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 4 | 0.156 | 1.927 |
| 2018-19 | Mad as Birds Ltd and Reliance Entertainment Productions Six Ltd | Six Minutes To Midnight | 0.400 | 3.879 |
| 2018-19 | Keeping Faith (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures) | Keeping Faith Cyfres 2 | 0.300 | 4.654 |
| 2018-19 | Hat Trick Productions | Warren | 0.109 | 1.304 |
| 2018-19 | Monterey Productions Ltd (HBO) | Brooklyn | 0.220 | 2.412 |
| 2018-19 | GOL Production Ltd (Pulse Films) | Gangs of London | 0.350 | 4.209 |
| 2018-19 | Iele Productions | Merched Parchus | 0.041 | 0.444 |
| 2018-19 | Blacklight TV | 4Stories Cyfres 2 | 0.102 | 1.574 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2019-20 | All That Limit | Brave New World | 2.000 | 20.000 |
| 2019-20 | Joio | Bang Cyfres 2 | 0.190 | 2.300 |
| 2019-20 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 5 | 0.060 | 1.827 |
| 2019-20 | Vox Pictures (Keeping Faith Cyfres 3) | Keeping Faith Cyfres 3 | 0.240 | 3.965 |
| 2019-20 | WP Productions Ltd (World Productions) | The Pembrokeshire Murder | 0.200 | 2.135 |
| 2020-21 | Hartswood TV Ltd | Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse | 0.225 | 2.247 |
| 2020-21 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2 | 0.140 | 1.407 |
| 2020-21 | Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd) | Bang Cyfres 2 | 0.190 | 2.302 |
| 2020-21 | Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd) | Kensukes Kingdom | 0.100 | 0.841 |
| 2020-21 | Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd) | The Pact | 0.595 | 5.953 |
| 2020-21 | One Tribe TV Limited | Wonders of the Celtic Deep | 0.077 | 0.618 |
| 2020-21 | Eleven Films (Starco TV 3 Ltd) | Sex Education Cyfres 3 | 0.432 | 5.186 |
| 2020-21 | WOTW2 Ltd- Urban Myth films | War of the Worlds Cyfres 2 | 0.750 | 7.344 |
| 2020-21 | Barking Lion Productions | The Trapper Keeper | 4.000 | 40.159 |
| 2020-21 | Bad Wolf (HDM3) Ltd | His Dark Materials Cyfres 3 | 2.000 | 21.075 |
| 2020-21 | Havoc Film Ltd | Havoc | 2.150 | 25.004 |
| 2020-21 | Short Form Film (JJ Productions) Ltd. | Jamie Johnson Cyfres 6 & 7 | 0.335 | 4.651 |
| 2021-22 | REP Productions SF Limited | The Almond and the Seahorse | 0.100 | 0.935 |
| 2021-22 | Cwmni Da Cyf | Rain Stories | 0.042 | 0.337 |
| 2021-22 | The Light Ltd/Y Golau Cyf | The Light/ Y Golau | 0.528 | 5.289 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | Sex Education S4 | Eleven Film | 0.450 | 6.169 |
| 2022-23 | Wolf | Hartswood | 0.500 | 6.004 |
| 2022-23 | The Pact S2 | Little Door | 0.330 | 5.502 |
| 2022-23 | The Truth About My Murder | Yeti | 0.250 | 0.342 |
| 2022-23 | American Doomsday / Super Volcano | Wildflame | 0.070 | 0.416 |
| 2022-23 | Black Cake | CBS UK Productions/Kapital Ent. | 0.750 | 10.000 |
| 2022-23 | 4 Stories: On the Edge S4 | Blacklight TV | 0.070 | 0.882 |
| 2022-23 | Un Nos ola o Leuda/One Moonlit Night | Afanti Media | 0.120 | 0.959 |
| 2022-23 | Steel Town Murders (aka Kappen) | Severn Screen | 0.400 | 5.200 |
| 2023-24 | Newffion | Ceidiog | 0.400 | 0.240 |
| 2023-24 | Pren ar a Bryn / Tree on a Hill | Fiction Factory | 0.500 | 6.262 |
| 2023-24 | The Way | Little Door / Red Seam | 0.510 | 5.282 |
| 2023-24 | Lost Boys and Fairies | Duck Soup Films | 0.500 | 5.148 |
| 2023-24 | Creisis | Boom Cymru | 0.169 | 2.038 |
| 2023-24 | Until I Kill You aka Delia | World Productions | 0.200 | 2.615 |
| 2023-24 | The Rubbish World of Dave Spud S3 | Illuminated Productions Ltd | 0.120 | 1.148 |
| 2024-25 | Men Up | Boom Cymru | 0.150 | 1.950 |
| 2024-26 | Bad Wolf Slate Funding | Bad Wolf Productions | 4.000 | 60.000 |
| 2024-25 | Mini Buds | Bumpy Box (*repayment) | 0.130 | 0.470 |
| | | **Cynigion newydd ers 6 Rhagfyr 2023 i 27 Tachwedd 2024** | **50.819** | **592.444** |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant Disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2023-24 | House of the Dragon S2 | HBO | 0.580 | 5.801 |
| 2023-24 | Out There | Buffalo Pictures | 0.310 | 6.446 |
| 2023-24 | Ty Gwydr / The Greenhouse | Little Bird | 0.060 | 0.359 |
| 2024-25 | Cleddau / The One That Got Away | Blacklight TV | 0.270 | 2.715 |
| 2024-25 | Maid of Sker 2 | Wales Interactive | 0.150 | 1.166 |
| 2024-25 | World's Biggest Cruise | Afanti | 0.014 | 0.100 |
| 2024-25 | Death Valley | BBC Studios | 0.400 | 4.818 |
| 2024-25 | Hafiach | Vox Pictures | 0.090 | 1.272 |
| 2024-27 | Whisper Slate | Whisper Cymru | 0.781 | 6.248 |
| 2025-26 | The Guest (aka Let Me In) | Quay Street Productions | 0.415 | 4.981 |
| 2025-26 | The Undeclared War S2 | Playground Entertainment | 0.500 | 7.411 |
| 2025-26 | All the Burtons | Yeti | 0.035 | 0.267 |
| 2024-25 | The Peace Particle | Telesgop | 0.030 | 0.180 |
| 2025-26 | Young Sherlock | Motive | 2.500 | 30.000 |
| 2025-26 | Under Salt Marsh | Little Door | 0.500 | 13.000 |
| 2024-26 | Y Golau: Dwr (Still Waters) | Triongl | 0.405 | 5.671 |
| 2024-25 | Pictionary | Whisper North | 0.050 | 0.403 |
| 2025-26 | Prisoner | Binocular | 0.500 | 10.000 |
| | | **Cyfanswm ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor** | **7.590** | **100.838** |
| **CYFANSWM (ac eithrio cynigion a dynnwyd yn ôl* a chyllid ehangach newydd)** | | | **58.409** | **693.282** |

**Atodiad D – BUDDSODDIAD STIWDIO BLAIDD CYMRU (25 Tachwedd 2024)**

| Buddsoddiad | Gwerth y Buddsoddiad (£) | Tynnu i lawr hyd yma (£) | I'w dynnu i lawr dros y blynyddoedd nesaf (£) | Llog cronnus @ 7.52% hyd yma (£) | Llog a dalwyd @ 7.52% hyd yma (£) | Arian Cyfatebol Blaidd Cymru (£) | Gwariant disgwyliedig Cymru (£) | Gwariant gwirioneddol Cymru (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenswm ad-daladwy | 4,500,000 | 4,500,000 | - | 1,063,937 | 875,174 | - | 54,000,000 | 54,000,000 |
| Grant pellach | 4,500,000 | 4,500,000 | - | N/A | N/A | - | 79,000,000 | 79,496,087 |
| Prynu Adeiladau 1 a 2, Trident Park | 6,000,000 | 6,000,000 | - | N/A | N/A | - | N/A | N/A |
| Ffioedd caffael | 30,000 | 30,000 | - | N/A | N/A | - | N/A | N/A |
| Gwaith gosod Stiwdio | 2,650,000 | 2,650,000 | - | N/A | N/A | 2,800,000 | N/A | N/A |
| Gwaith gosod Pinewood Studio Wales | 667,588 | 667,588 | - | N/A | N/A | 692,412 | N/A | N/A |
| SAWS | 80,000 | 40,000 | - | N/A | N/A | - | N/A | N/A |
| Blaendal | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | 250,000 | N/A | N/A |
| Rhwydwaith Drama Ieuenctid | 20,000 | 20,000 | - | - | N/A | - | N/A | N/A |
| His Dark Materials Cyfres 3 | 2,000,000 | 2,000,000 | | - | - | - | | |
| **Cyfanswm** | **20,447,588** | **20,407,588** | **0** | **1,063,937** | **875,174** | **3,742,412** | **133,000,000** | **133,496,087** |

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
delyth.jewell@senedd.wales

20 Rhagfyr 2024

Annwyl Delyth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch gwahoddiad i ddod i sesiwn dystiolaeth ar 16 Ionawr i graffu ar gyllideb ddrafft Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2025-26.

Fel y gwnaeth fy rhagflaenwyr, rwy'n gwrthod y gwahoddiad ar y sail fy mod yn bwriadu ymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith y flwyddyn.

Byddaf yn cyfarfod â'r Pwyllgor ym mis Mehefin i drafod unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â datblygu ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol a'r ffordd rydym yn ymdrin â datblygu cynaliadwy rhyngwladol.

Gan ein bod newydd gytuno ar y gyllideb ddrafft, rwy'n gweithio drwy'r dyraniadau cyllid ar gyfer gweithgareddau unigol, er enghraifft, Cymru a Japan, ar y cyd â swyddogion. Rwy'n fwy na pharod i barhau i ateb unrhyw gwestiynau drwy ohebiaeth a byddaf yn croesawu sgwrs y flwyddyn nesaf yn y sesiwn graffu flynyddol. Mae Atodiad A yn cynnwys fy ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr gwahodd.

Dymuniadau gorau

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A – Ymatebion**

Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

**C1. Dadansoddiad o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2025-26 ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol yn ôl Prif Grŵp Gwariant, maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).**

Nodir y dyraniadau drafft, ar yr amod y caiff y cyllidebau eu cymeradwyo fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | £8,143,000 |
| Datblygu Rhyngwladol | £1,050,000 |

| | |
|---|---|
| Ymgysylltu Rhyngwladol (gan gynnwys ymlyniadau byrdymor rhyngwladol) | £2,708,600 |
| Gweithrediadau Tramor | £4,684,400 |
| Gweithgarwch y Swyddfeydd Tramor | £750,000 |
| | |
| **CYFANSWM Cysylltiadau Rhyngwladol** | **£8,143,000** |
| | |
| Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol | £1,050,000 |

**C2. Alldro terfynol ar gyfer 2023-24 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024-25**

| | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|
| Cyllideb (BEL Cysylltiadau Rhyngwladol) | £8,272,000 | £8,093,000 |
| Alldro / rhagolwg | £7,708,743 | £8,093,000 |
| | | |
| Cyllideb (BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol) | £1,359,000 | £1,050,000 |
| Alldro / rhagolwg | £1,358,112 | £1,050,000 |

**C3. Sylwadau ar y Camau Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Rhyngwladol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o newidiadau rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 a Chyllideb Ddrafft 2025-26.**

Bydd gwaith y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol yn ogystal â'r gweithgareddau a chefnogaeth i'n swyddfeydd tramor, gan gynnwys costau rhedeg. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi ein cydberthnasau â blaenoriaeth yn ogystal â'n partneriaethau strategol.

Rhwng y gyllideb atodol gyntaf a'r gyllideb ddrafft, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol wedi cynyddu £50,000 i adlewyrchu effaith dyfarniad cyflog o 1.3% ac effaith cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn. Nid yw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol wedi newid gan nad oes unrhyw swyddi yn cael eu hariannu drwy'r llinell hon.

**C4. Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant arfaethedig yn y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a'r Swyddfeydd Rhyngwladol.**

Bydd cyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol yn darparu cyllid i helpu i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau gweithredol, gan gynnwys gwaith gyda'n cydberthnasau rhanbarthol â blaenoriaeth, partneriaid strategol a chynnal blynyddoedd 'Cymru yn'.

Bydd hyn yn cynnwys cynnal Blwyddyn Cymru a Japan, gweithgareddau i hyrwyddo Cymru yn Expo y Byd yn ogystal â'r cynnig i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chatalonia ac adnewyddu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwlad y Basg.

Bydd gwariant ar y swyddfeydd tramor yn unol â chynlluniau'r wlad sy'n cael eu datblygu i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol newydd. At ddefnydd mewnol yn unig y mae'r cynlluniau hyn a byddant yn adlewyrchu'r blaenoriaethau economaidd a diwylliannol ar gyfer pob marchnad unigol, yn ogystal â chynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ymaddasu i amodau'r farchnad. Bydd pob cynllun yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ryngwladol ac yn helpu i gyflawni'r amcanion a'r cynlluniau gweithredu.

Nid oes unrhyw ddadansoddiad ychwanegol na dyraniad o wariant wedi'i wneud eto fel rhan o'r gyllideb hon i helpu i gyflawni gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol na'r swyddfeydd rhyngwladol.

**C5. Gwybodaeth ynglŷn ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol.**

Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu. Caiff y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf eu cyflawni drwy Gynllun Cyflawni diwygiedig y Strategaeth Ryngwladol y mae fy swyddogion yn ei baratoi.

Oherwydd natur cysylltiadau rhyngwladol, gall fod yn anodd meintioli a mesur allbynnau a chanlyniadau. Mae'r adroddiad blynyddol ar y rhwydwaith tramor yn un o'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i nodi ein canlyniadau.

Bydd y gweithgareddau a gynhelir yn cefnogi presenoldeb ein swyddfeydd dramor, yn datblygu ein cydberthnasau rhanbarthol â blaenoriaeth, ac yn cyflawni'r gweithgareddau sy'n cael eu datblygu o dan Flwyddyn Cymru a Japan. Hefyd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynnal deuddydd o weithgarwch penodol i Gymru yn Expo y Byd yn Osaka.

Ystyrir gwerth am arian ar gyfer yr holl weithgareddau a gynhelir a chaiff y polisïau priodol eu dilyn wrth gaffael gwasanaethau.

**C6.Dyraniadau a chymariaethau â gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn erbyn y flwyddyn flaenorol.**

| | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---:|---:|
| Ymgysylltu Rhyngwladol (gan gynnwys ymlyniadau byrdymor rhyngwladol) | £2,658,600 | £2,708,600 |
| Gweithrediadau Tramor | £4,684,400 | £4,684,400 |
| Gweithgarwch y Swyddfeydd Tramor | £750,000 | £750,000 |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **CYFANSWM CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL** | **£8,093,000** | **£8,143,000** |
| | | |
| Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol | £1,050,000 | £1,050,000 |

**C7. Amlinelliad o heriau posibl pellach a blaenoriaethau y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu pennu o bosibl yn y dyfodol.**

Byddwn yn blaenoriaethu gwariant a gweithgareddau yn seiliedig ar yr hyn sydd i'w gyflawni a fydd yn cael ei nodi yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol y mae swyddogion wrthi'n ei baratoi. Bydd hwn yn nodi fy mlaenoriaethau o ran yr hyn sydd i'w gyflawni dros weddill oes estynedig y Strategaeth. Rydym yn blaenoriaethu ein gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n rhyngwladol gyda'r gwledydd a'r rhanbarthau hynny lle y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Yn dibynnu ar y dyraniad cyllidebol yn y dyfodol, efallai y bydd angen ystyried a blaenoriaethu'r gweithgareddau y gellir eu cyflawni o dan y rhaglen Cysylltiadau Rhyngwladol a lle y gall cymorth gael ei ddarparu'n allanol.

Gall sefyllfaoedd byd-eang newidiol newid ffocws ein gwaith a'n cyllid yn ystod y flwyddyn. Ni allwn ragweld pryd, nac os, y gallai'r rhain ddigwydd, a byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau o'r fath sy'n arwain at ailflaenoriaethu cyllid wrth iddynt godi. Rydym yn mabwysiadu'r dull gweithredu hyblyg ac ymatebol hwn yn ein holl weithgarwch rhyngwladol ac mae wedi golygu ein bod wedi llwyddo i ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd annisgwyl i godi proffil Cymru wrth iddynt godi.

<u>Gwybodaeth arall</u>

**C8.Sylwadau ar oblygiadau effaith barhaus ymadawiad y DU o'r UE ar gynlluniau gwariant cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys fel y mae'n ymwneud â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 'y cyfnod pontio o'r UE'.**

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y cyfnod pontio o'r UE wedi cael ei chau ac mae'r gyllideb a fu'n gysylltiedig â'r llinell hon gynt wedi cael ei chynnwys yn llinell sylfaen y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Rhedeg Adrannol/Costau Staff Llywodraeth Cymru yn 2024-25. Mae'r gwaith yn parhau drwy'r timau Cysylltiadau Rhyngwladol, y Rhwydwaith Tramor a Pholisi Masnach gan ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes.

**C9.Sylwadau ar ymrwymiadau cysylltiadau rhyngwladol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dyraniadau'r gyllideb ddrafft.**

Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a dau ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni tri uchelgais y Strategaeth Ryngwladol, sef codi proffil Cymru dramor, tyfu'r economi a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ein cynlluniau gweithredu a chynllun cyflawni arfaethedig y Strategaeth Ryngwladol, a fydd yn nodi ein blaenoriaethau am weddill tymor y Senedd hon.

Y ddau ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hagenda ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol yw:

- Cadw swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel
- Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru

Cyflawnwyd ein hymrwymiad ynglŷn â'n swyddfa ym Mrwsel ym mis Mawrth 2023, a gwnaed y penderfyniad i adnewyddu'r les naw mlynedd er mwyn parhau â'n gwaith ar bolisi'r UE, gan gyflawni'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, hyrwyddo Cymru/Brand Cymru, gweithgarwch Masnachu a Buddsoddi a buddiannau Rhanbarthol/y Rhwydwaith. Mae cyllideb Gweithrediadau Tramor yn cynnwys cyllid ar gyfer y les ar y swyddfa ym Mrwsel.

Mae'r ymrwymiad i sefydlu Academi Heddwch hefyd wedi cael ei gyflawni. Daw cyllid ar gyfer ein partneriaeth strategol â'r Academi Heddwch o gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol. Mae trafodaethau â'r Academi Heddwch ynglŷn â chyllid ar gyfer ei gwaith yn 2025-26 yn parhau.

Strategaeth Ryngwladol

**C10. Dyraniadau a sylwadau mewn perthynas â'r canlynol:**

**a) Dadansoddiad o ddyraniad y gyllideb ddrafft i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.**

Mae'r holl weithgarwch yn y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig sy'n darparu'r fframweithiau ar gyfer pob rhaglen waith.

Bydd hyn yn cynnwys cynnal Blwyddyn Cymru a Japan, gweithgareddau i hyrwyddo Cymru yn Expo y Byd yn ogystal â'r cynnig i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chatalonia ac adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwlad y Basg. Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud eto fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer gweithgareddau unigol fel y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth neu flwyddyn Cymru a Japan.

**b) Dadansoddiad o ddyraniadau'r gyllideb ddrafft i gwblhau camau gweithredu pob un o'r pum cynllun gweithredu ategol ar gyfer Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau pellach o:**

**i. adnoddau ar gyfer sefydliadau allanol Cymry ar Wasgar.**

**ii. adnoddau ar gyfer pob partner cyflawni unigol sy'n gyfrifol am helpu i gyflawni'r strategaeth.**

**iii. adnoddau ar gyfer sefydliadau diwylliant, celfyddydau a chwaraeon allanol i helpu i gyflawni'r strategaeth.**

**iv. adnoddau sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhyngwladol.**

**v. adnoddau ar gyfer ymgysylltu â rhanbarthau a gwledydd â blaenoriaeth a amlinellwyd yn y Strategaeth Ryngwladol.**

**vi. adnoddau ar gyfer blynyddoedd 'Cymru yn' gyda sylwadau ar y ffordd y mae gwerthusiadau Llywodraeth Cymru o flynyddoedd blaenorol wedi llywio dyraniadau cyllideb ddrafft 2025-26.**

Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud eto fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer y pedwar cynllun gweithredu sy'n cael eu cyflawni drwy'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol a Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol. Mae'r gwaith ar y Cynllun Gweithredu Allforio yn cael ei ariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi, ac mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn craffu arno ar wahân, ac mae tystiolaeth ynghylch y llinell hon wedi cael ei chyflwyno i'r pwyllgor hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

(i, ii, iii a iv) Partneriaethau Cymry ar Wasgar a Strategol
Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud eto fel rhan o'r gyllideb hon i gefnog ein partneriaid strategol neu'r Cymry ar wasgar.

(v) Cydberthnasau â Blaenoriaeth
Mae'r cydberthnasau rydym wedi eu datblygu â'n gwledydd a'n rhanbarthau â blaenoriaeth yn sail i'n holl waith rhyngwladol, o ddigwyddiadau ac ymweliadau i sicrhau mewnfuddsoddiad ac allforio ein nwyddau a'n gwasanaethau.

Mae'r gwaith gyda'n cydberthnasau â blaenoriaeth yn cwmpasu gwariant ym mhob un o feysydd Cysylltiadau Rhyngwladol, yn ogystal â'r adran ehangach ac ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gweithgareddau gwahanol a gynhelir, gan gynnwys, er enghraifft, croesawu cynrychiolwyr o ranbarthau â blaenoriaeth yn Hotspot Economi Gylchol Cymru, ymweliadau â rhanbarthau a gwledydd â blaenoriaeth, gan gynnwys Baden-Württemberg, India, Brwsel a Silesia, cynrychiolwyr a diplomyddion yn ymweld â Chymru a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cydberthnasau newydd pan fo hynny'n briodol.

Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud eto fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer cydberthnasau â blaenoriaeth.

(vi) Blynyddoedd 'Cymru yn'
Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud eto fel rhan o'r gyllideb hon i gefnog ein blynyddoedd hyrwyddo. Caiff blwyddyn Cymru a Japan yn 2025, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr, ei chefnogi drwy Ymgysylltu Rhyngwladol. Mae'r flwyddyn hon wedi cael ei datblygu drwy ddefnyddio rhai o'r argymhellion o'r gwerthusiad o'r ymgyrch Cymru yn Ffrainc, megis ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid allanol, a ffurfio grŵp rhanddeiliaid â chynrychiolwyr mewnol ac allanol allweddol sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn ystod camau cynllunio'r flwyddyn. Mae adnoddau ychwanegol hefyd wedi cael eu cyflwyno ar yr ochr gyfathrebu er mwyn cefnogi blwyddyn Cymru a Japan. Mae hyn yn cynnwys aelod tîm mewnol sy'n gyfrifol am yr ymgyrch ac ymgysylltu ag asiantaethau creadigol allanol yng Nghymru a Japan, er mwyn sicrhau bod y negeseuon a'r gweithgarwch cyfathrebu yn gadarn. Yn debyg i'r ymgyrch Cymru yn Ffrainc, bydd yr ymgyrch yn Japan yn manteisio ar ddigwyddiad byd-eang yn Expo y Byd yn Osaka a bydd hwn yn rhoi ffocws allweddol i'r flwyddyn.

Swyddfeydd Tramor

**C11. Dyraniadau a sylwadau mewn perthynas â'r canlynol:**

a) **gwaith y swyddfeydd tramor, a manylion am ba ganlyniadau a gaiff eu sicrhau a sut y bwriedir mesur i ba raddau y mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu sicrhau.**

Mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl hollbwysig wrth hyrwyddo buddiannau Cymru dramor. Mae eu gwaith yn cynnwys meithrin cydberthnasau masnach, denu buddsoddiad, a gwella cysylltiadau diwylliannol. Caiff llwyddiant y mentrau hyn ei fesur drwy amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys asesiadau o'r effaith economaidd, cynnydd mewn masnach, a metrigau cyfnewid diwylliannol. Mae pob swyddfa yn gyfrifol am bennu amcanion mesuradwy, penodol sy'n gyson â nodau cyffredinol Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

Yn fwy penodol, mae gan bob gwlad gylch gwaith cyhoeddedig ar gyfer y swyddfa ac mae gennym gynlluniau mewnol ar gyfer gwledydd sy'n gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r cyfleoedd yn y wlad honno. Cynlluniau trawslywodraethol yw'r rhain. Ceir cylch gwaith cyffredin i ddod o hyd i gyfleoedd mewnfuddsoddi a nodi cyfleoedd mewn marchnadoedd i fusnesau o Gymru sicrhau cytundebau allforio a chefnogi'r cwmnïau ar y

daith allforio. Mae pob tîm yn ymgymryd â gwaith ar y cyd â'r Adran Busnes a Masnach a sefydliadau partner eraill lle y bo'n briodol i gefnogi cwmnïau o Gymru yn y farchnad.

Mae'r swyddfeydd rhyngwladol hefyd yn gweithio tuag at greu rhwydweithiau Cymry ar wasgar yn eu marchnadoedd. Mae'r timau tramor yn gallu cefnogi allforwyr o Gymru drwy eu helpu i ddeall y farchnad leol; delio â chyfreithiau/arferion lleol; a dod o hyd i gyfleoedd ac 'agor drysau' lle y gall fod yn anodd cael mynediad weithiau. Mae'r rhwydwaith yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae Cymru yn eu cynnig, yn enwedig yn y meysydd hynny yn yr economi lle mae Cymru yn dangos gallu ar raddfa ryngwladol, gan gynnwys seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, gwyddorau bywyd, ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu gwerth ychwanegol / y genhedlaeth nesaf – gan felly hyrwyddo cryfderau Cymru a gwerthu Cymru fel lle i gynnal busnes yn llwyddiannus. Mae'n mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ddarpar fewnfuddsoddwyr a allai ystyried Cymru fel lleoliad i fuddsoddi ynddo yn ogystal â meithrin a chynnal cydberthnasau â rhiant-gwmnïau/pencadlysoedd buddsoddwyr tramor presennol sydd â gweithrediadau eisoes yng Nghymru, er mwyn atgyfnerthu'r gydberthynas, dangos ein hymrwymiad i weithio'n agos gyda nhw ac annog mwy o swyddi a thwf yng Nghymru.

**b) holl gynlluniau Llywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr, gan gynnwys sut y gwerthusir cost a manteision cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.**

Mae'r digwyddiadau rhyngwladol mawr y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddynt yn y flwyddyn ariannol nesaf yn gysylltiedig â Blwyddyn Cymru a Japan ac Expo y Byd.

Mae digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi bob amser yn ddyddiad allweddol ar y calendr i bob un o'n swyddfeydd hefyd; cyhoeddir gweithgarwch bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol ar weithgarwch tramor. Mae'n rhoi cyfle i arddangos cuisine a diwylliant Cymru a'r Gymraeg a datblygu cydberthnasau economaidd â'n partneriaid tramor.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso penderfyniadau i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr drwy gynnal dadansoddiadau trylwyr o gostau a manteision. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ffactorau megis y potensial ar gyfer twf economaidd, cyfleoedd ar gyfer cyfnewid diwylliannol, ac ychwanegu at statws Cymru yn y byd. Drwy ddewis digwyddiadau sy'n cyd-fynd â'n hamcanion ar sail strategol, rydym yn sicrhau ein bod yn cael y manteision mwyaf ac yn sicrhau canlyniadau mesuradwy drwy gymryd rhan. Mae argymhellion gwerthusiadau o flynyddoedd blaenorol 'Cymru yn' wedi cael eu hystyried wrth lunio'r rhaglen ar gyfer Cymru a Japan.

**c) dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer swyddfeydd tramor unigol, ac ar ba sail y gwnaed penderfyniadau ar y dyraniadau penodol hyn.**

Y dyraniad cyllidebol arfaethedig ar gyfer gwaith gweithrediadau tramor i helpu i gyflawni holl elfennau gweithredol a logistaidd y swyddfeydd tramor, gan gynnwys costau staffio yw £4,684,400, ond nid yw'r swm hwn yn cael ei rannu yn ôl swyddfeydd penodol, a chaiff ei ddarparu i'r rhwydwaith cyfan i dalu am gostau rhedeg.

Dyrennir swm pellach o £750,000 i'r rhwydwaith tramor sy'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng Gogledd America (£250,000), Ewrop (£250,000) a rhwydweithiau MENA (£250,000) (Dwyrain Canol/Gogledd Affrica), ac wedyn ymhlith yr 20 o swyddfeydd. Ni chaiff cyllidebau eu dyrannu i swyddfeydd unigol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn hytrach, cânt eu dyrannu ar sail angen unwaith y bydd gweithgarwch wedi'i nodi.

Bydd dyraniadau ar gyfer swyddfeydd tramor unigol yn cael eu pennu yn seiliedig ar eu pwysigrwydd strategol, eu perfformiad hanesyddol, ac yn unol â blaenoriaethau rhyngwladol

Llywodraeth Cymru. Mae dyraniad pob swyddfa yn adlewyrchu ei photensial i gyfrannu at dwf economaidd, diplomyddiaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo buddiannau Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Rhaglen Cymru ac Affrica

**C12. Dyraniadau a sylwadau mewn perthynas â'r canlynol:**

a) **yr adnoddau a ddarperir ar gyfer y prosiectau a'r sefydliadau a gefnogir gan raglen Cymru ac Affrica.**

Ar gyfer 2025-26, bydd Hub Cymru Affrica yn cael grant o £349,000, fel y cytunwyd arno yn y dyfarniad grant 3 blynedd a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn gynharach y flwyddyn hon. Rwyf wedi cytuno ar ddyraniad pellach o (hyd at) £210,000 tuag at gynllun grantiau bach Cymru ac Affrica a ddarperir o dan gontract. Nid oes unrhyw ddyraniad wedi cael ei wneud eto o dan y gyllideb hon ar gyfer gweithgarwch prosiect arall, ond rhagwelaf y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer ein cymorth diogelu i brosiectau.

b) **cyllid i helpu i ddatblygu prosiectau Plannu Coed Affrica Gyfan, gan gynnwys Rhaglen Plannu Coed Mbale sy'n bodoli eisoes.**

Mae opsiynau yn cael eu hystyried i ddyrannu cyllid i brosiectau Plannu Coed Affrica Gyfan, gan gynnwys Rhaglen Goed Mbale Maint Cymru yn 2025-26, gan fod cytundeb bellach ynglŷn â dyraniad cyllideb Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ar hyn o bryd.

c) **cyllid i gefnogi Cymru fel Cenedl Masnach Deg, a manylion am ba ganlyniadau a gaiff eu sicrhau a sut y bwriedir mesur i ba raddau y mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu sicrhau.**

Dyfarnwyd grant tair blynedd newydd o £349,000 y flwyddyn i Hub Cymru Affrica ym mis Ebrill 2024. Mae Bwrdd Partneriaeth Hub Cymru Affrica yn penderfynu ar y dyraniad i Cymru Masnach Deg er mwyn helpu i gyflawni'r ymgyrch Cenedl Masnach Deg

Yn 2023, dathlodd Cymru 15 mlynedd ers dod yn Genedl Masnach Deg. Aeth Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Cymru Masnach Deg, Fforwm Masnach Deg yr Alban a Llywodraeth yr Alban ati i ddatblygu meini prawf Cenedl Masnach Deg ar eu newydd wedd (a nodir isod); cyhoeddwyd gwybodaeth am hyn yn gynharach y flwyddyn hon, yn nodi'r mesurau a'r dangosyddion a'r broses asesu er mwyn i wlad gael ei hystyried yn Genedl Masnach Deg.

1. mae ymwybyddiaeth eang o Fasnach Deg
2. mae ymgysylltiad sylweddol â Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas
3. mae cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu defnyddio a'u cynhyrchu
4. mae cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltiad â Masnach Deg
5. mae anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas yn cael eu herio gan Fasnach Deg